

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MERCHER, 15 HYDREF 2014 am 2.00 o'r gloch y prynhawn	WEDNESDAY, 15 OCTOBER, 2015 at 2:00 p.m.
SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI	COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

ANNIBYNNOL / INDEPENDENT

Jim Evans, Victor Hughes, G.O.Jones (*Is-Gadeirydd/Vice-Chair*), Raymond Jones

PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES

R.Meirion Jones (*Cadeirydd/Chair*), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

GRWP CHWYDROAD/REVOLUTIONIST GROUP

Peter Rogers

HEB YMUNO/UNAFFILIATED

R Llewelyn Jones

AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a
Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD A'R AELODAU**

Y Cadeirydd ac Aelodau i roi diweddariad ar ddatblygiadau.

3 **COFNODION 1 MEDI, 2014** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethola gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol :

- 1 Medi, 2014
- 26 Medi, 2014 (arbennig)

4 **CYLLIDEB 2015/16** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro ynghylch bwriadau cychwynol y Pwyllgor Gwaith.

5 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 15 - 16)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: -

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

6 **PROSIECT GWEITHIO'N GALLACH** (Tudalennau 17 - 112)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol.

7 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 113 - 114)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: -

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

8 **OPSIYNAU GOFAL YCHWANEGOL AMLWCH A LLANGEFNI** (Tudalennau 115 - 124)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Trawsnewid Strategol (Gofal Cymdeithasol i Oedolion).

9 **MODERNEIDDIO YSGOLION - CAERGYBI** (Tudalennau 125 - 250)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes.

10 **PARC SGLEFRIO LLANGFNI - ADOLYGIAD SGRIWTINI** (Tudalennau 251 - 256)

Cyflwyno adroddiad drafft Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Rheolwr Sgriwtini.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi, 2014

PRESENNOL:	Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd) Cynghorydd G.O. Jones (Is-Gadeirydd) Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Raymond Jones, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Peter Rogers
WRTH LAW:	Prif Weithredwr (o eitem 6 ymlaen) Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Cyfarwyddwr Cymuned Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant) (ar gyfer eitem 4) Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen (GM) (ar gyfer eitem 4) Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cyfrifo (BO) (ar gyfer eitem 5 a 6) Cyfrifydd Rheoli Cyfalaf a Thrysorlys (ar gyfer eitem 5) Rheolwr Trawsnewid Strategol Gofal Cymdeithasol (JD) (ar gyfer eitem 10) Rheolwr Sgriwtini (BS) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorydd Richard Dew (Deilydd Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff)
HEFYD YN BRESENNOL:	Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor), Cynghorydd H.Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid), Cynghorydd Kenneth Hughes (Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Cynghorydd Alwyn Rowlands (Deilydd Portffolio Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r Aelodau ar y materion a ganlyn:

- Ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd adolygu gwasanaeth ers y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf ac roedd wedi eu cael yn gyfarfodydd defnyddiol i baratoi ar gyfer yr ymgynghori ar osod Cyllideb 2015/16.
- Bod sesiwn hyfforddi wedi ei drefnu i'r Aelodau gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar destun Sgriwtini Gwerth Ychwanegol ar 24 Medi yn Adeilad Archifdy'r Cyngor.
- Y bydd y Panel Canlyniad Sgriwtini Arbedion yn cyfarfod nesaf ar 24 Medi am 2:00 p.m.
- Y bydd y Rheolwr Sgriwtini yn cysylltu â'r Aelodau ynglŷn â threfnu cyfarfod o'r Panel Canlyniad Sgriwtini Absenoldeb Salwch. Cadarnhawyd y byddai Aelodau'r Panel yn cynnwys y Cynghorydd G.O. Jones fel Cadeirydd ynghyd â'r Cynghorwyr Jim Evans, Victor Hughes a Peter Rogers.
- Soniodd y Cynghorydd Ann Griffith am y prif feysydd trafod yn y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 2 Mehefin, 2014 ac roedd y cofnodion o'r cyfarfod hwnnw wedi eu cyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Mehefin.

CAMAU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i drefnu cyfarfod cychwynnol o'r Panel Canlyniad Sgriwtini Absenoldeb Salwch.

3 COFNODION Y CYFARFOD 1 GORFFENNAF, 2014

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2014.

4 MONITRO PERFFORMIAD – CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2014/15

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor i'w ystyried gwybodaeth am berfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol mewn perthynas â Rheoli Pobl, Rheolaeth Ariannol, Rheoli Perfformiad a Gwasanaeth Cwsmer ar ddiwedd Chwarter 1 2014/15 fel oedd wedi ei grynhai yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y broses a'r dangosyddion ar gyfer yr ail flwyddyn wedi eu mireinio yn dilyn ymgynghori gyda'r Uwch Dim Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a thynnu sylw at y materion canlynol fel rhai oedd angen eglurhad pellach:

- Y tanberfformiad yng nghyswllt dangosyddion SCA/018b: y ganran o ofalwyr oedolion oedd wedi cael asesiad neu adolygiad o'u hanghenion yn ystod y flwyddyn a SCA/018c: y ganran o ofalwyr oedolion oedd wedi eu hasesu neu eu hail-asesu yn ystod y flwyddyn ac a gafodd wasanaeth. Roedd y Pwyllgor yn bryderus am y dirywiad mewn perfformiad yn erbyn y ddau ddangosydd hyn ac awgrymwyd bod angen parhau i'w monitro yn ofalus er mwyn osgoi unrhyw ddirywiad pellach.

Roedd y Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod bod y data perfformiad yn y ddau faes hwn yn siomedig ac roedd pwysau gwaith sylweddol wedi bod ar y tîm gwasanaeth. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod gwasanaethau i ofalwyr yn bwysig a bod Ynys Môn yn cael ei gydnabod fel awdurdod sy'n perfformio'n eithaf da yn y cyd-destun hwn. Mae hwn yn faes lle mae'r tîm gwasanaeth wedi cynnwys ond un neu ddau unigolyn penodol yn delio â cheisiadau am asesiadau gan olygu bod unrhyw absenoldeb yn cael mwy o effaith ar y mesur o safbwynt yr asesiadau a wnaed. Roedd y proses wedi cronni oherwydd materion yn ymwneud ag argaeledd staff i ddelio â'r gwaith. Bydd Pennaeth y Gwasanaeth Oedolion yn adolygu'r system gyfan ynghyd â chysondeb y broses gofnodi ac y mae eisoes wedi dechrau ar y dasg honno. Hefyd, targedau yw'r dangosyddion sy'n cael eu gosod yn lleol ac nid oedd yn bosibl cymharu tebyg at ei debyg mewn perthynas â siroedd eraill. Felly os yw'r gofalwyr yn derbyn gwasanaeth y tu allan i system y Cyngor, yna ni fyddai hynny wedi ei gyfrif fel ymateb. Felly mae yna nifer o ffactorau o fewn y broses sy'n egluro'r dirywiad mewn perfformiad yn y ddau faes hwn.

- Y patrwm at i lawr yn y perfformiad o ran dangosydd SCC/43a mewn perthynas â chanran yr asesiadau craidd a gwblheir o fewn 35 diwrnod.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y dangosydd uchod yn un o dros 40 y gofynnir i'r Gwasanaethau Plant ymateb iddynt ar lefel Cymru gyfan. Mae yna hefyd ddangosyddion lleol sydd wedi eu mabwysiadu. Eglurodd y Swyddog beth oedd hanfod asesiad craidd yng nghydstun y Fframwaith Asesu ar gyfer Plant a Theuluoedd a'r hyn y mae'n ei olygu o ran adeiladu ar wybodaeth gychwynnol, yn ogystal â'r math o wybodaeth y mae'n ei ddarparu sy'n helpu gyda chael darlun cyflawn o anghenion plentyn, amgylchiadau'r teulu a gallu'r gofalwyr i edrych ar ôl y plentyn a'i gadw ef/hi yn ddiogel. Mae hyn yn galluogi i'r Awdurdod benderfynu a yw plentyn unigol mewn risg. Mae perfformiad yr Awdurdod yn y maes hwn wedi gwella'n gyson dros flynyddoedd blaenorol o fod yr isaf yng Nghymru yn 2010/11 ar 22% drwy 46%, 80% a 76% mewn blynyddoedd dilynol yn erbyn cyfartaledd Cymru o 76%. Targed y Gwasanaeth yw 85% sydd yn uchelgeisiol. Roedd perfformiad yn y chwarter cyntaf 2014/15 wedi llithro oherwydd y perfformiad yn Ebrill lle nad oedd ond 40% o'r asesiadau craidd wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod amser gofynnol. Roedd y rhain yn cyfateb i ddau achos yn ymwneud â grŵp o 4 a 5 brawd/chwaer. Oherwydd y nifer gweddol isel o blant y gofelir amdanynt y mae'r Awdurdod yn delio â hwy ym Môn, gall teuluoedd unigol gael effaith anghymharus ar ganlyniadau. Eglurodd y Swyddog rai o'r materion a'r cymhlethdodau gydag asesu dau grŵp o blant a'r amser oedd ynghlŷn â hynny. Ar gyfartaledd, yr amser ar gyfer cwblhau asesiadau am y mis oedd 42 diwrnod sydd yn is na'r targed a osodwyd gan y Gwasanaeth ei hun sef y dylai unrhyw asesiadau na chawsant eu cwblhau mewn 35 diwrnod

gael eu cwblhau o fewn 45 diwrnod. Roedd y Gwasanaeth yn deall y rhesymau pam yr oedd y ddau achos dros darged ac roedd gwelliant wedi ei weld ym mis Mai (83%), Mehefin (92%) a Gorffennaf (100%). Dywedodd y Swyddog bod gan y Gwasanaeth Gynllun Gweithredu a rhoddodd eglurhad o'i gynnwys er mwyn sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei rheoli a'i gwella. Hefyd fe gynhelir cyfarfodydd perfformiad wythnosol i fonitro'r maes hwn yn rheolaidd. Mae archwiliad ansawdd o asesiadau wedi ei gynnal i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n adeiladol i benderfyniadau am blentyn.

Roedd y Pwyllgor yn derbyn yr eglurhad a roddwyd am y tangyflawniad ac yn cymryd sicrwydd o hynny.

- Tra'n cydnabod y gwelliant gyda rheoli cyfraddau absenoldeb salwch, dywedodd Aelod ei fod yn parhau yn bryderus oherwydd cost absenoldeb salwch am Chwarter 1 oedd yn fwy na £500K a goblygiadau hynny o safbwynt costau tebygol am flwyddyn gyfan. Nododd yr Aelod hefyd ei bod yn hanfodol bod yr Awdurdod yn parhau i ymdrechu i weld gwelliannau pellach ynglŷn â pherfformiad yn cynnal cyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith ac na ddylai laesu dwylo am y gyfradd cyflawni 80% ar ddiwedd Chwarter 1.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol ei bod yn hanfodol bod absenoldeb salwch yn cael ei ddadansoddi ymhellach er mwyn sefydlu'r natur a'r math o absenoldebau. Bu dylanwad y Cydlynnydd Absenoldeb Salwch yn greiddiol yn helpu'r adrannau i fynd i'r afael ag absenoldebau salwch yn arbennig absenoldebau tymor byr. Rhaid i'r Awdurdod hefyd fod yn sensitif yn ei agwedd tuag at absenoldebau salwch tymor hir a dylid cael nod o geisio cyflawni graddfa mor uchel ag sy'n bosibl o gyfweiliadau Dychwelyd i'r Gwaith a rhaid i reolwyr adrannol ddeall hynny. Gall cost absenoldeb salwch amrywio o chwarter i chwarter gan ddibynnu ar lefel cyflog yr aelodau staff sy'n absennol. Fodd bynnag, rhaid dilyn yr egwyddor bod yn rhaid gweithredu a sefydlu pam fod unigolyn yn absennol a beth fydd hyd tebygol y salwch, a fydd yn ail-godi ac a fyddai unrhyw ymyrraeth ataliol o fudd neu a oes angen hynny. Mae rheoli absenoldeb salwch yn fater sy'n parhau ac mae'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn erfyn defnyddiol yn dod â llithriadau i sylw'r Rheolwyr a'r Aelodau. Fodd bynnag, dylid nodi bod y patrwm 12 mis o safbwynt perfformiad Rheoli Pobl yn symud at i fyny.

- Ceisiwyd cael eglurhad am statws coch ac amber y prosiectau o fewn Hamdden a'r Llyfrgell.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Trawsnewid Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol y byddai'r cynnydd gyda'r trefniadau Prosiect Trawsnewid Hamdden yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth ddiwedd mis Medi. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen nad oes mandad hyd yn hyn ar gyfer y Prosiect Trawsnewid Hamdden sy'n egluro'r rheswm am y statws coch ac mae disgwyl cael symudiad hefyd ar y Prosiect Llyfrgell.

Penderfynwyd –

- **Nodi:**
 - **Y mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â meysydd o bryder fel a amlinellir ym mharagraffau 4.1.1 i 4.1.4 yr adroddiad.**
 - **Eglurhad y Swyddogion a'r Deilyddion Portffolio am y meysydd o bryder a amlygwyd gan y Pwyllgor yn ystod cwrs y drafodaeth i'w gyfathrebu i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 8 Medi.**

CAMAU'N CODI:

- **Yng nghyswilt SCA/0 18b ac 18c, y Pwyllgor i dracio cynnydd mewn perthynas â bwriad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion i gynnal adolygiad o'r sefyllfa erbyn diwedd Chwarter 2 gyda golwg ar roi adnoddau ychwanegol i mewn yn y manau hyn os nad yw'r targedau perfformiad wedi'u cyflawni.**

- **Yng nghyswilt SCC/43A, Pennaeth y Gwasanaeth Plant i roi copi i'r Pwyllgor o'r adroddiad ar ganlyniad yr archwiliad ansawdd o asesiadau plant pan fyddant wedi'u cwblhau a'u terfynu.**

5 MONITRO'R GYLLIDEB – CYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 1 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Dros Dro Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ar y sefyllfa gyda'r gyllideb gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 1 2014/15 i sylw'r Pwyllgor. Roedd crynodeb o wariant yn erbyn y gyllideb hyd ddiwedd Mehefin 2014 ynghlwm fel Atodiad A.

Rhoddodd y Deilydd Portffolio Cyllid adroddiad ar y chwarter cyntaf a nododd bod gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd ddiwedd Mehefin yn £1.3m oedd yn cyfateb i 5.9% o'r holl gyllideb o gymharu â £2.2m neu 13% am yr un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf ac mai'r rheswm am hyn oedd oherwydd bod rhai o'r prosiectau ar gam cynnar iawn. Tynnodd yr Aelod sylw'r Pwyllgor at sefyllfa yng nghyswilt derbynion cyfalaf fel oedd yn cael ei adlewyrchu yn adran 3.2 yr adroddiad ac a oedd yn sefyll ar £288k ar ddiwedd y chwarter cyntaf. Fodd bynnag, roedd wedi cael ar ddeall gan y Deilydd Portffolio Eiddo bod disgwyl y ceir derbynion cyfalaf £700k yn yr ail chwarter a thua £500k yn y trydydd chwarter heb gynnwys incwm a ragwelir o werthu mân-ddaliad sylweddol yn yr wythnosau i ddod. Felly roedd y rhagamcanion o safbwynt derbynion cyfalaf yn awgrymu sefyllfa fydd yn gwella o gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r adroddiad ac amlygwyd y materion canlynol ar y wybodaeth a gyflwynwyd:

- Roedd pryder parhaol ynglŷn â'r diffyg mewn derbynion cyfalaf o werthiant y mân-ddaliadau ac awgrymwyd y byddai'n elwa o farchnata cadarnach a mwy rhagweithiol yn arbennig o ystyried pwysigrwydd a gwerth y portffolio o dir ac eiddo mân-ddaliadau. Awgrymwyd na fyddai cyflogi un asiant i ddelio â gwerthiant mân-ddaliadau ar draws yr Ynys y trefniadau mwyaf effeithiol. Awgrymwyd ymhellach y gallai'r amodau llym sydd yn aml ynghlwm wrth denantiaethau mân-ddaliadau fod yn tynnu oddi wrth eu gwerthu. Pwysleisiwyd hefyd bod angen cwblhau'r broses werthu mân-ddaliadau yn gyflymach.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Deilydd Portffolio Cyllid gyfeirio pryderon y Pwyllgor ar y mater hwn i'r Deilydd Portffolio Eiddo.

- Tynnodd yr Aelodau sylw at y fformat adrodd ac i'r adrannau oedd heb eu cwblhau o fewn yr adroddiad.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd archwiliad corfforaethol o adroddiadau'n cael ei wneud er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn.

Penderfynwyd nodi a derbyn eglurhad lliniaru'r Aelod Portffolio am fethu'r targedau gwariant yn erbyn y gyllideb gyfalaf hyd ddiwedd mis Mehefin, 2014.

CAMAU'N CODI:

- **Y Pwyllgor i dracio'r dataganiad gan yr Aelod Portffolio Eiddo am y derbynion cyfalaf y disgwylir eu gwireddu - £700k yn Chwarter 2 a £500k yn Chwarter 3 heb gynnwys incwm a ragwelir o werthu mân-ddaliad sylweddol yn yr wythnosau i ddod.**
- **Y Rheolwr Sgrwtini i ganfod canlyniadau'r awdit corfforaethol o adroddiadau erbyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr.**

6 MONITRO'R GYLLIDEB – CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 1 2014/15

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo Gweithredol yn amlinellu'r sefyllfa ar wariant refeniw y Cyngor am chwarter cyntaf 2014/15 a hefyd ragamcan o'r sefyllfa am flwyddyn gyfan.

Dywedodd y Deilydd Portffolio mai'r sefyllfa ariannol a ragwelir yn gyffredinol yw gorwariant o £652k ac roedd yr amrywiaethau yn y gwasanaethau wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a cheisiwyd cael eglurhad pellach ynglŷn â'r materion a ganlyn:

- Y gorwariant £482k oedd yn cael ei ragamcanu i'r Gwasanaeth Cyllid ac a oedd y patrwm hwn yn debygol o gael ei ailadrodd yn Chwarter 2. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar y diffyg nodiadau eglurhaol mewn perthynas â gorwariant / tanwariant y gwasanaeth oedd wedi ei nodi yn yr adroddiad ac roedd teimlad bod hynny'n rhwystro i'r ffigyrau gael eu sgriwteiddio'n agos.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai adroddiad llawnach ar gael ar gyfer y chwarter nesaf yn dilyn trosglwyddo gwybodaeth i'r System Ledjer newydd.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Cyllid bod adnoddau ychwanegol wedi eu defnyddio gan y Swyddogaeth Adnoddau i gefnogi'r broses o gau'r cyfrifon o fewn y cyfnod amser statudol, gyda hynny bellach wedi ei wneud yn llwyddiannus. Yr amcan yw lleihau dibyniaeth ar gefnogaeth asiantaeth a thrwy bod y contractau penodol hynny'n dod i ben byddir yn ceisio recriwtio ar sail barhaol. Tra bod staff asiantaeth o fewn y Swyddogaeth Adnoddau wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr a phwysig i gwblhau'r cyfrifon, rhaid cael y nod yn awr o reoli'r gorwariant i rwystro i bethau waethygu ymhellach ac i roi ar droed gynllun gweithredu i gael gwared o'r diffyg tros gwrs y flwyddyn ac efallai y tu hwnt i hynny.

- Awgrymwyd y dylai'r Awdurdod fod yn adolygu asedau y mae'n parhau i'w rhedeg ar golled a chyfeiriwyd at Glwb Golff Llangeferni fel enghraifft o hynny.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod adroddiad yn amlinellu opsiynau yng nghyswllt Clwb Golff Llangeferni yn cael ei baratoi a byddai ar gael fel rhan o'r broses ddemocrataidd yn y man.

- Ynghlwm wrth y driniaeth o asedau, ailadroddodd Aelod y pryderon ynglŷn â'r agwedd tuag at werthu a marchnata'r portffolio mân-ddaliadau a dywedodd ei fod wedi dwyn hyn i sylw'r Prif Weithredwr.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn ymwybodol o'r oedi a all ddigwydd mewn cael gwared o asedau yn arbennig pan fo'r asedau hynny'n cael eu cyfrif yn rhai gwerthfawr gan gymunedau lleol. O safbwynt marchnata'r portffolio mân-ddaliadau, bydd y gwasanaeth yn cael ei roi allan i dendr yn flynyddol gyda manylebau llym ynglŷn â'r gofynion a byddir yn dilyn proses dendro gystadleuol yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor. Mae gan yr Awdurdod arbenigedd mewnol hefyd drwy'r Swyddog Prisio o ran sicrhau gwerth am arian a sicrhau bod eiddo yn cael eu rhoi ar y farchnad ar yr amser gorau posibl.

Awgrymodd y Cadeirydd – pan ddaw'r contract i ben efallai y byddai'r pwyllgor yn dymuno sgriwteiddio'r trefniadau yn ogystal â'r agwedd tuag at werthu'r portffolio mân-ddaliadau fel pryder sydd wedi bod yn bodoli ers amser maith yn ogystal ag asedau eraill lle bo hynny'n briodol.

Penderfynwyd:

- **Nodi'r adroddiad a derbyn -**
 - **Cynnig y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo Gweithredol y bydd adroddiad llawnach ar y gyllideb refeniw ar gael i Chwarter 2 yn dilyn trosglwyddo gwybodaeth i'r System Ledjer newydd.**
 - **Y bydd adroddiad yn amlinellu opsiynau yng nghyswllt Cwrs Golff Llangeferni ar gael fel a gynigiwyd gan yr Aelod Portffolio Cyllid.**
- **Bod Panel Canlyniad Sgrwtini o'r Pwyllgor hwn yn cael ei sefydlu i edrych ar yr agwedd tuag at gael gwared o'r portffolio mân-ddaliadau ac asedau eraill ac i gynnwys y Cynghorwyr R. Meirion Jones, Jim Evans, Peter Rogers, Lewis Davies a Raymond Jones.**

CAMAU'N CODI: Y Rheolwr Sgrwtini i wneud trefniadau ynglŷn â rhaglennu a galw cyfarfodydd o'r Panel Canlyniad Sgrwtini ac i ddiweddarau'r Flaenraglen Waith yn unol â hynny.

7 CYFEIRIAD GAN AELOD – CAU PARC SGLEFRIO LLANGFNI Y TU ALLAN I GANOLFAN HAMDDEN PLAS ARTHUR

Rhodddwyd ystyriaeth i gais gan Aelod o'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol graffu'r penderfyniad a wnaed i gau Parc Sglefrio Llangefni tu allan i Ganolfan Hamdden Plas Arthur.

Dywedodd y Cadeirydd mai'r farn oedd bod hwn yn fater rhy sylweddol i'w drafod o fewn y rhaglen heddiw ac felly cynigiodd y dylid galw cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor i roi sylw i'r mater. Ehangodd y Rheolwr Sgriwtini ar y trefniadau ar gyfer y cyfarfod arfaethedig o ran y rhai fyddai'n cael eu gwahodd a darparu cefndir a dogfennau cefnogol fel y gallai'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r mater mewn dyfnder ac y byddai'r holl wybodaeth ganddo i'w ddefnyddio.

Penderfynwyd y dylid galw pwyllgor arbennig o'r Pwyllgor hwn i ystyried y mater o gau Parc Sglefrio Llangefni ar ddyddiad ac amser i'w cadarnhau.

CAMAU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i gadarnhau dyddiad y cyfarfod arbennig ac i gyd-lynu trefniadau ynglŷn â gofyn i swyddogion fod yn bresennol a darparu dogfennau.

8 BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith Flynyddol y Pwyllgor hyd ddiwedd Mawrth 2015. Roedd y Rhaglen Waith yn dangos nifer o newidiadau mewn eitemau a hynny wedi digwydd ers iddi gael ei gosod ar y cychwyn ym Mai 2014. Nododd y Pwyllgor y newidiadau.

CAMAU'N CODI: Y Rheolwr Sgriwtini i ddiweddarau'r Flaen Raglen Waith.

9 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

10 TAI GOFAL YCHWANEGOL

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad drafft cychwynnol yn rhoi'r ystyriaethau mewn perthynas â datblygu darpariaeth gofal ychwanegol yn Amlwch a Llangefni.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ac yn trafod ymarferoldeb y cynigion gerbron a cheisiwyd cael eglurhad ar nifer o faterion ymarferol. Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen am i gyfleusterau gofal ychwanegol gael eu lleoli yn agos i drefi Amlwch a Llangefni er mwyn sicrhau y gallai eu defnyddwyr fwynhau manteision cymdeithasol y cymunedau hynny.

Penderfynwyd cefnogi'r cynigion oedd yn yr adroddiad fel sail i allu symud ymlaen gyda thrafodaethau yng nghyswllt datblygu'r ddarpariaeth gofal ychwanegol yn Amlwch a Llangefni.

CAMAU'N CODI: Rheolwr Trawsnewid Strategol (Gofal Cymdeithasol Oedolion) i gyflwyno adroddiad Cam 2 i gyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar 14 Hydref, 2014.

**Cynghorydd R.Meirion Jones
Cadeirydd**

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 26 Medi 2014

PRESENNOL:	Y Cyngorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd) Y Cyngorydd G.O.Jones (Is-Gadeirydd) Y Cyngorwyr Llinos Medi Huws, Victor Hughes, Raymond Jones, R.Llewelyn Jones, Peter Rogers
WRTH LAW:	Y Cyngorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Gwasanaethau Hamdden) Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy Prif Swyddog Hamdden (DB) Rheolwr Canolfan Hamdden Plas Arthur (JS) Rheolydd Sgriwtini (BS) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cyngorydd Jim Evans
YN CYFRANNU:	Y Cyngorwyr Dylan Rees, R.G.Parry, OBE (Aelodau Lleol), Mr Arnold Milburn (Cyn-Glerc Cyngor Tref Llangefni), Cynrychiolwyr Cyngor Tref Llangefni, Mr Dewi Morgan (un o Ddefnyddwyr y Gwasanaeth) Y Mri. Dic Pritchard, Gwyn Jones Trefor Edwards (Cwmni Tref Llangefni), Mr J.E.Lewis (Cyngor Tref Llangefni)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 CAU PARC SGLEFRIO LLANGEFNI

Rhoes y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod arbennig hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a drefnwyd i ystyried cau Parc Sglefrio Llangefni ac unrhyw wersi i'w dysgu o'r broses honno a hynny'n unol â'r cais a wnaed gan y Cyngorydd Victor Hughes ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2014.

Rhodddwyd i'r Pwyllgor wybodaeth gefndirol ynglŷn ag amgylchiadau gwneud y penderfyniad i gau'r Parc Sglefrio yn Llangefni.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyngorydd Victor Hughes egluro'r rhesymau dros ofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ymchwilio i'r mater.

Nododd y Cyngorydd Victor Hughes y pwyntiau canlynol –

- Fel un o gyfarwyddwyr gweithredol Cwmni Tref Llangefni a fu'n allweddol yn y broses o sefydlu Parc Sglefrio Llangefni, roedd yn siomedig bod y parc wedi cau a'r modd y gwnaed hynny ac effaith andwyol y penderfyniad ar y gymuned leol a defnyddwyr y parc.
- Disgrifiodd yr ymdrechion a wnaed yn 2002 i ddod â'r Parc Sglefrio i Llangefni fel adnodd y gallai pobl ifanc y dref ei ddefnyddio a'r anawsterau a gafwyd i ddod o hyd i leoliad derbyniol ac addas.
- Rhoes amlinelliad o fewnbwn y Cyngor Sir ar y pryd o ran cynorthwyo i ddiogelu cyllid grant a chaniatâd cynllunio (gohebiaeth ddyddiedig 10 Ebrill 2003 gan Bennaeth y Gwasanaethau Hamdden ar y pryd).
- Wedi hynny, sefydlwyd y Parc Sglefrio a bu'n cael ei ddefnyddio yn gyson ers hynny.
- Ar 11 Gorffennaf 2014 sylwodd fod offer y Parc Sglefrio yn cael ei gludo ymaith ar lori. Wedi ymholi, canfuwyd nad oedd yr Aelodau Lleol yn ymwybodol o'r datblygiad hwn ac nid oedd y Prif Weithredwr ychwaith yn ymwybodol pan ofynnwyd iddo'r diwrnod canlynol.

- Rhoddwyd y gorau ar unwaith i ddefnyddio adnodd gwerth £70k ar sail dau adroddiad iechyd a diogelwch - y naill gan RoSPA a'r llall yn adroddiad archwilio ar wahân - a hynny heb ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o drwsio'r offer.
- Mae'r ail adroddiad yn argymhell y dylid trin y rhannau o'r offer a oedd wedi rhydu gyda golwg ar ymestyn oes a sefydlogrwydd yr offer.
- Disgrifiwyd sefyllfa debyg mewn newyddlen gymunedol ar gyfer cymuned Blaenau Ffestiniog lle cafodd penderfyniad i gau Parc Sglefrio lleol yr oedd ei gyflwr wedi ei dirywio ei wyrdroi gan ymdrech gydweithredol yn y gymuned i godi £15k ar gyfer gwaith trwsio. Nid yw swm oddeutu £15k yn swm mawr i wario ar drwsio'r offer o gofio'r buddsoddiad gwreiddiol o £70k ar Barc Sglefrio Llangefni. Chafodd cymuned Llangefni mo'r cyfle i wneud unrhyw waith trwsio.
- Ei fod yn teimlo bod yr holiadur ynghylch Parc Sglefrio Plas Arthur a luniwyd i gynorthwyo gyda'r penderfyniad ynghylch dyfodol y parc, wedi ei eirio yn negyddol ac mewn modd a oedd yn cefnogi cau/ail-leoli'r parc.

Clywodd y Pwyllgor gan Mr Dave Barker, Y Prif Swyddog Hamdden, Mr James Stuart, Rheolwr Canolfan Hamdden Plas Arthur a Mr Arnold Milburn, cyn Glerc Cyngor Tref Llangefni a wahoddwyd i'r cyfarfod i roddi i'r Pwyllgor wybodaeth ynghylch y ffactorau a'r amgylchiadau a arweiniodd at gau'r Parc Sglefrio. Cafodd Aelodau'r Pwyllgor y cyfle i ofyn cwestiynau i'r sawl a wahoddwyd er mwyn cael eglurhad ar y sefyllfa.

Llywiodd y Cadeirydd y cyfarfod yn ôl y drefn a nodwyd yn rhestr ddogfennau'r Pwyllgor:

- Canlyniadau'r Arolwg ar y Parc Sglefrio
- Rhestr Wirio Archwiliadau'r Ganolfan Hamdden
- Adroddiad RoSPA
- Adroddiad ar Archwiliad Diogelwch Annibynnol
- Nodyn Briffio gan y Pennaeth Gwasanaeth

Cododd y pwyntiau canlynol o'r cwestiynau a ofynnwyd a'r ymatebion iddynt:

- Mae rhestr wirio Swyddog Dyletswydd Plas Arthur yn rhan o drefn weithredu'r Ganolfan Hamdden. Ymestynnwyd yr arfer i'r Parc Sglefrio oherwydd y sbwriel a adawyd ar y parc, problem a waethygodd ar ôl 2010. Cafwyd hefyd achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyfeiriwyd at yr Heddlu ar dri achlysur. Gwyddys fod cwynion wedi cael eu gwneud ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol mor bell yn ôl â 2005.
- Rhoddwyd gwybod i Glerc Cyngor Tref Llangefni am unrhyw ddiffygion o bwys a gwnaeth y Cyngor hwnnw'r mân waith trwsio.
- Cafodd yr holiadur defnyddwyr a baratowyd gan y Cyngor Tref ei lunio er mwyn cael tystiolaeth o'r defnydd a oedd yn cael ei wneud o'r Parc Sglefrio oherwydd bod lefel y defnydd ar y pryd yn isel ac er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r problemau cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a sbwriel. Roedd yn rhan o'r adolygiad o'r parc yn ei gyfanrwydd gan gynnwys ei weithrediad a'r problemau y gall fod yn eu hachosi.
- Mae'r safle lle bwriedir ail-leoli'r Parc Sglefrio ym Mharc Cymuned Lôn Las eisoes â chyfleusterau arno. Mae'n safle mwy a gellid ei alw yn hyb cymunedol.
- Cafodd yr adroddiad gan yr arolygydd annibynnol ar gyflwr y Parc Sglefrio dyddiedig Mai 2014 ei gomisiynu'n anffurfiol gan Glerc Cyngor Tref Llangefni ar y pryd er mwyn dilysu ei asesiad personol ef ei hun o gyflwr dirywiedig offer rhan o'r Parc. Ni chafodd yr adroddiad ei drafod yn ffurfiol gan y Cyngor Tref.
- Anfonwyd yr adroddiad at yr Adran Hamdden. Oherwydd trafodaethau rhwng y Gwasanaeth Hamdden a'r Cyngor Tref ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo'r Parc Sglefrio fel ased, roedd yn rhesymol cael asesiad annibynnol swyddogol o'r offer cyn y trosglwyddiad, ac o'r herwydd, comisiynwyd RoSPA, fel corff a gydnabyddir yn genedlaethol, i gynnal yr asesiad hwnnw. Roedd adroddiad RoSPA dyddiedig Mehefin 2014 yn ategu nifer o'r casgliadau y daethpwyd iddynt gan yr arolygydd annibynnol yn ei adroddiad answyddogol.
- Ar sail sgôr yr asesiad risg yn adroddiad RoSPA a chyngor cyfreithiol a gafwyd ar wahân, codwyd arwydd i hysbysu'r cyhoedd y byddai'r offer yn cael ei dynnu o'r Parc am resymau diogelwch. Gwnaed y penderfyniad gan y Prif Swyddog Hamdden, Rheolwr Canolfan Hamdden Plas Arthur a chyn Glerc y Cyngor Tref a hynny yn wyneb yr adroddiad gan RoSPA.

- Dywedwyd oherwydd bod y Gwasanaeth Hamdden yn un anstatudol nid oedd rhaid ymgynghori. Fodd bynnag, ni chafodd yr Aelodau Lleol Etholedig eu cynnwys yn y broses trwy amryfusedd ac ymddiheurodd y Prif Swyddog Hamdden am hynny.
- Gellid dadlau na fyddai'r penderfyniad i dynnu'r cyfarpar oddi yno wedi newid oherwydd ei fod yn seiliedig ar gasgliadau corff annibynnol uchel ei barch ond byddid wedi medru gweithredu'r penderfyniad mewn ffordd wahanol.
- Tynnwyd y cyfan o'r cyfarpar oddi yno oherwydd y byddai'r darnau bychan a fyddai ar ôl wedi amharu ar lif y parc.
- Roedd y Cyngor Tref wedi gwneud mân-waith trwsio ac roedd yn parhau i wneud i hynny. Seiliwyd y penderfyniad i dynnu'r cyfarpar oddi yno oherwydd y farn nad oedd modd trwsio'r strwythur ac nid oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae'r Cyngor tref yn gyfrifol am nifer o lecynnau chwarae sy'n cael eu harchwilio bob blwyddyn gan RoSPA. Archwiliwyd Parc Sglefrio Llangefni fel rhan o'r broses honno yng nghyd-destun y bwriad i drosglwyddo'r ased, a chyhoeddwyd yr adroddiad dyddiedig Mehefin 2014 wedyn.
- Nid oes penderfyniad wedi ei wneud mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd arall y gellir ei wneud o safle'r Parc Sglefrio.
- Mae yna Gronfa Gymunedol o'r enw Clwb Cadw Mi Gei a sefydlwyd gan y gymuned ar ôl i'r Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf wneud ei ddyraniad grant ar gyfer sefydlu'r parc, ac mae'r gronfa honno ar hyn o bryd yn cynnwys £2,000.

Clywodd y Pwyllgor hefyd gan Aelod Lleol, y Cynghorydd Dylan Rees ac Aelodau o Gyngor Tref Llangefni a oedd wedi codi materion mewn perthynas â diffyg rhybudd bod y parc am gau ac ynghylch cyflwr y parc a oedd, yn eu barn nhw, yn lân ac yn daclus; ynghylch cyllid ac ynghylch cyfrifoldebau trosolwg.

Dywedodd Mr Dewi Morgan, fel un a oedd yn defnyddio'r Parc Sglefrio ac a fu'n rhan o'r gwaith o'i sefydlu ac y bu ei blant yn ei ddefnyddio, fod llawer o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r parc a'i fod yn arbennig o brysur ar y Suliau. Mae ei leoliad cyfredol y tu allan i Ganolfan Hamdden Plas Arthur yn un addas oherwydd mai gweithgareddau hamdden sy'n digwydd yn y Parc Sglefrio ac mae mewn lleoliad diogel sy'n agos i'r ganolfan hamdden. Dywedodd Mr Morgan fod y sylfeini'n parhau i fod yno ac y byddai'n dymuno gweld y Parc yn cael ei ailsefydlu ar y safle gwreiddiol cyn tynnu'r wyneb a cholli'r arian.

Ymateb y Pwyllgor i rai o'r pwyntiau uchod oedd –

- Roedd gwendid sylfaenol yn yr arolwg ac roedd wedi ei dargedu at ddefnyddwyr y Ganolfan Hamdden ac nid defnyddwyr y Parc Sglefrio
- Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig
 - i. I ddangos pa mor aml yr oedd y Parc Sglefrio'n cael ei archwilio
 - ii. Unrhyw werthusiad o waith cynnal yr oedd angen ei wneud, a
 - iii. Gweithdrefn i adrodd yn ôl ar hynny i sicrhau yr awdurdoddir unrhyw gamau gweithredu
 - iv. Mewn perthynas â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol y cyfeiriwyd ato neu gwynion gan gwsmeriaid
- Dangoswyd bod y dystiolaeth lafar ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amherthnasol unwaith yr oedd cronoleg wedi ei sefydlu trwy ofyn cwestiynau.
- Roedd yn ymddangos bod mwy o bwys wedi ei roi ar yr adroddiad gan RoSPA na'r adroddiad ar yr Archwiliad Diogelwch Annibynnol - yn hytrach na bod y ddau adroddiad wedi cael yr un flaenoriaeth. Roedd yr adroddiad diwethaf yn rhoi opsiynau eraill y byddai'r gymuned wedi eu ffafrio.
- Sefydlwyd bod y Swyddogion, wrth ystyried y mater, wedi ceisio a chael cyngor cyfreithiol ar lafar gan y Cyngor Sir.
- Sefydlwyd mai dim ond sion oedd y sôn am faes parcio ar safle'r Parc Sglefrio.
- Roedd gan yr Aelodau gydymdeimlad gyda sefyllfa'r Swyddogion ac yn deall y bu angen gwneud penderfyniad ar fyrder i osgoi risg uwch o anaf posib ac i osgoi cael beirniadaeth am weithredu'n rhy araf.

Nododd y Pwyllgor y themâu a oedd yn codi a'r gwersi y gellid eu dysgu o'r wybodaeth yr oeddent wedi ei chael am gau'r Parc Sglefrio a'r ffordd y cafodd ei wneud. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor sut oedd yn dymuno bwrw ymlaen i lunio argymhellion.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog Hamdden at nifer o enghreifftiau lleol o Barciau Sglefrio e.e. yng Nghaernarfon, Bangor, Llanfairfechan, Penmaenmawr, Parc Eirias ac ati ac y gallai'r rheini sy'n gwneud cais am grant i sefydlu Parc yn Llangefni ymgynghori â nhw a dysgu o'r safleoedd hyn.

CAMAU GWEITHREDU Y GOFYNNWYD AMDANYNT GAN Y PWYLLGOR

- **Bod y Rheolydd Sgrwtini, mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd, yn llunio adroddiad canlyniad sgrwtini ar adolygiad y Pwyllgor o'r modd y cafodd Parc Sglefrio Llangefni ei gau, gan gynnwys casgliadau ac argymhellion, a chyflwyno drafft i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Hydref i'w gymeradwyo cyn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith.**
- **Bod yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Hamdden yn ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd ynghylch ymarferoldeb yr Adran yn arwain ar gymorth gyda gwaith ymchwil ar gyfer cymuned Llangefni i geisio dod o hyd i gyllid grant a safleoedd posib ar gyfer Parc Sglefrio yn Llangefni.**

Y Cynghorydd R.Meirion Jones
Cadeirydd

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	PWYLLGOR SGRIWITNI A'R PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	15 HYDREF 2014 A 20 HYDREF 2014
PWNC:	CYLLIDEB 2015/16
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD H E JONES
PENNAETH GWASANAETH:	RICHARD MICKLEWRIGHT
AWDUR YR ADRODDIAD:	BETHAN HUGHES OWEN
RHIF FFÔN:	01248 752663
E-BOST:	Bethanhughesowen@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	d/b

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi a mabwysiadu'r adroddiad.

CEFNDIR

- 1.1** Yn yr Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig 14 Gorffennaf 2014, amcangyfrifwyd bod y diffyg cyllidebol yn £7.659m.
- 1.2** Yn ddiweddar, ysgrifennodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth at Awdurdodau yn awgrymu y dylent ystyried sut y byddent yn ymateb i ostyngiadau o hyd at - 4.5%, dyna ddefnyddiwyd wedyn ar gyfer y clandriadau ariannol. Nid yw'r rhagdybiaeth hon wedi newid.

Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad dros dro ym mis Hydref. Dyma pryd fydd gan y Cyngor arwydd mwy penodol o lefel ei gyllid ar gyfer 2015/16.

CYLLIDEB 2015/16

- 2.1** Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad dros dro ym mis Hydref 2014 ac wedi hynny, bydd gan y Cyngor syniad cywirach o'i gyllid ar gyfer 2015/16. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd y Setliad Terfynol yn cael ei gyhoeddi hyd fis Rhagfyr 2014.
- 2.2** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio i ddiffyg cyllidebol o £7.659m yn 2015/16 a diffyg o £16.6m dros gyfnod o dair blynedd.
- 2.3** Ar 1 Medi, rhoddwyd targed arbedion o 10% i'r Adrannau Gwasanaeth yn seiliedig ar eu cyllidebau gros a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno arbedion oedd 30 Medi 2014. Ar hyn o bryd, mae Cyfrifwyr y Gwasanaethau wrthi'n gwerthuso'r cynigion a bydd rhestr yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd ar gyfer ymgynghori yn eu cylch.
- 2.4** Mae nifer o ffrydiau gweithgaredd wedi bod yn digwydd dros fisoedd yr haf er mwyn nodi arbedion posibl er sylw'r Aelodau. Mae'r holl gynigion yn cael eu rhoi at eu gilydd yn ganolog a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd ar ôl cael eu sgrwtineiddio'n ddadansoddol gan y cyfrifwyr. Isod, ceir crynodeb o'r digwyddiadau/gweithgareddau a gynhaliwyd.
 - (i) Herio Gwasanaethau**
Mae hyn wedi digwydd yn achos yr holl wasanaethau; roedd y sesiynau'n gyfle i'r aelodau herio'r Penaethiaid Gwasanaeth mewn cyd-destun torri costau a darparu gwasanaethau. Yn ystod yr ymarfer hwn, bu modd nodi arbedion gwerth £4.002m. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i sylw'r aelodau yn y man.
 - (ii) Awgrymiadau'r Staff**
Cylchredwyd holiadur ymhlith staff yr Awdurdod drwy e-bost a chafwyd nifer o awgrymiadau. Ar yr un pryd, gosodwyd blychau awgrymiadau mewn nifer o lefydd yn yr Awdurdod yn gofyn i staff ddarparu/nodi meysydd lle gellid, o bosib, wneud arbedion. Roedd yr arbedion a nodwyd gan staff werth £335k ac eto, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i sylw'r aelodau yn y man.

(iii) Adolygiadau Cyllidebol

Mae'r holl gyllidebau a pherfformiad yn eu herbyn wrthi'n cael eu hadolygu gan y cyfrifwyr ar hyn o bryd, a rhoddir gwybod yn y man am unrhyw addasiadau, mae'r rhai a nodwyd yn barod werth oddeutu £400k.

(iv) Adolygiadau Goddrychol

Yn draddodiadol, edrychir ar gyllidebau fesul gwasanaeth. Fodd bynnag, maent yn cael eu harchwilio hefyd ar sail croes-toriadol ar draws y cyngor cyfan ac mae arbedion caffael a nodwyd wrthi'n cael sylw ar hyn o bryd ac mewn rhai achosion yn mynd allan i dendr, un engraifft o hyn yw'r tendr Bancio, sydd wrthi'n cael ei sgopio rŵan. Mae ymarfer o ran adolygu Cyflenwadau a Gwasanaethau hefyd yn mynd rhagddo ac wedi nodi rhai meysydd lle gellid efallai gwneud arbedion effeithlonrwydd. Cyflwynir y rhain yn y papur ar y Gyllideb ym mis Tachwedd 2014.

(v) Cyllidebau Sail Sero (CSS)

Mae'n bosibl y gallai CSS arwain at arbedion sylweddol mewn sawl sefydliad. Mae CSS yn broses llafur-ddwys ac ni fedrir cynnal yr ymarfer yn rhwydd ar gyfer y cyngor cyfan. Mae'n bwysig nodi y gall cynnal ymarfer CSS gasglu bod angen mwy o gyllid ar wasanaeth penodol ac na fyddai modd gwneud arbedion. Y ddau wasanaeth fydd yn cael eu hystyried ar gyfer CSS yw Arforol a Diwylliant.

(vi) Prosiectau Eraill

Mae nifer o ddarnau eraill o waith ar y gweill gyda'r nod o sicrhau arbedion, e.e. y Bwrdd Trawsnewid a'r prosiect caffael – disgwylir i'r prosiect hwn sicrhau arbedion oddeutu £264k dros gyfnod o dair blynedd.

3. Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol – Diweddariad

3.1 Yn y diweddariad o'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol, nodir yr angen i wneud arbedion o £7.791m yn ystod 2015/16. Mae hyn yn seiliedig ar ostyngiad o -4.5% yn y Grant Cymorth Refeniw gan Lywodraeth Cymru a chyfanswm arbedion o £15.266m dros y tair blynedd nesaf. Mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar y canlynol:-

- Cynnydd o 5% yn y dreth gyngor
- Y rhagdybiaeth y bydd cymorth grant yn gostwng gan -4.5% (gostyngiad cyfartalog ar draws Cymru gyfan)
- Y rhagamcanion a ganlyn o ran chwyddiant:-
 - Dyfarniad tâl o 1% i athrawon a staff eraill
 - Codiad cyffredinol o 0% mewn prisiau
- Chwyddiant ar gcontractau'n unig
- Ceir grant Cytundeb Canlyniadau ond dim ond ar lefel 2014/15
- Diogelwch o 0.6% i ysgolion

3.2 Yn y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2014, tybiwyd yn y CATC y byddai'r Dreth Gyngor yn codi gan 5% bob blwyddyn. Ym 2014/15, pennodd y Cyngor godiad o 4.5% a oedd uwchlaw'r cynnydd cyfartalog ar draws Gymru, sef 4.2%. Bydd yr ymgynghoriad yn ystod yr hydref eto'n cynnig opsiwn i godi'r Dreth Gyngor gan 5% - mae cynnydd o 5% ar gyfer eiddo Band D yn cyfateb i oddeutu £49 y flwyddyn neu 94c yr wythnos. Mae lefel gyfredol y Dreth Gyngor ymysg yr isaf yn Lloegr a Chymru a chynigir y codiadau hyn oherwydd y gostyngiad anferthol yn y cyllid a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru a hefyd y rhybudd byr a gafwyd o newid mor fawr.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i gynyddu cyllidebau ysgolion gan 0.6% ar gyfer 2015/16. Dyma'r swm y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2015/16.

3.4 Mae copi o'r CATC diweddaraf ynghlwm yn Atodiad A.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
d/b		
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae hwn yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydy – mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydy – mae wnelo'r penderfyniad hwn â phennu'r gyllideb flynyddol.		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Dim sylw
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Adroddiad ydyw hwn gan y Swyddog A151
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim sylw
4	Adnoddau Dynol (AD)	Dim sylw
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	
E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdlodi	d/b
3	Trosedd ac Anhrefn	d/b
4	Amgylcheddol	d/b
5	Cydraddoldebau	d/b
6	Cytundebau Canlyniad	d/b
7	Arall	d/b
F - Atodiadau:		
Atodiad A – Diweddariad o'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

**Rhagamcan Ariannol ar gyfer y Tymor Canol - Diweddariad
Cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor
Gostyngiad o 4.5% yn y Grant (RSG) gan Lywodraeth Cymru**

	2015/16 £'000's	2016/17 £'000's	2017/18 £'000's
Lefelau Gwariant Cyfredol/Diwygiedig wedi eu dwyn ymlaen	126,670	123,806	123,045
Pwysau:			
Chwyddiant a Diogelwch i Ysgolion	172	0	0
Addasiad Pensiwn Athrawon Medi 2015 ymlaen	255	182	0
Ad-daliadau YG @ £70 fesul gweithiwr	229	0	0
Ariannu a Llog Cyfalaf	173	173	173
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	400	400	0
Dyfarniad Cyflog 1% i Weithwyr	708	715	722
Cynnydd mewn Costau	500	500	500
Newidiadau Demograffig	500	500	500
Arfarnu Swyddi	700	525	
Methiant i gwrdd â thargedau llynedd 21%/10%/10%	1,290	715	380
Cyfanswm y Newidiadau i'r lefelau gwariant sylfaenol	4,927	3,710	2,275
Lefelau Gwariant Diwygiedig wedi eu dwyn ymlaen	131,597	127,516	125,320
Wedi eu cyllido gan:			
Llywodraeth Cymru	-92,093	-90,711	-89,351
Y Dreth Gyngor	-30,988	-31,607	-32,239
Grant Cytundeb Canlyniadau	-726	-726	-726
Cyfanswm y Cyllid gan gynnwys defnyddio arian wrth gefn o'r Blynyddoedd Blaneorol	-	-123,045	-122,316
Arbedion ychwanegol sydd eu hangen i falansio'r gyllideb neu wneud defnydd ychwanegol o arian wrth gefn	7,791	4,472	3,004
Arbedion posibl a nodwyd drwy'r Adolygiadau Gwasanaeth			
Addasiadau Lefel Gwasanaeth	693		
Gostyngiadau yn y Gwasanaethau	2,277		
Caffael / Diwygio Contractau	125		250
Creu Incwm	92		
Addasiadau o ran Staffio	815		
	4,002		250
Arbedion Posibl a nodwyd o Arolygon Staff	355		
Cynigion Caffael	64	100	100
Adolygiadau o'r Cyllidebau Corfforaethol	400		
Yr arbedion y mae angen eu gwneud o bosib i falansio'r gyllideb	2,970	4,372	2,654

PRAWF BUDD Y CYHOEDD

PUBLIC INTEREST TEST

ACHOS BUSNES LLAWN AR GYFER Y PROSIECT GWEITHIO'N GALLACH

SMARTER WORKING PROJECT FULL BUSINESS CASE

Paragraff(au) Paragraph(s) [un neu fwy o/one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C]	13, 14 and 15	Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972
Y PRAWF – THE TEST		
Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- Mae'r mater hwn yn ymwneud ag arian cyhoeddus ac mae yna fudd i'r cyhoedd o ran sicrhau tryloywder mewn perthynas â sut mae busnes y Cyngor yn cael ei drefnu a'r strwythur y mae'n ei fabwysiadu i ddarparu ei wasanaethau. <i>The matter involves public money and there is a public interest in ensuring transparency in relation to how council business is organised and the structure it adopts in discharging its services.</i>	Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- Bydd gwybodaeth mewn perthynas â materion busnes ac ariannol sensitif yr Awdurdod yn cael ei thrafod. Mae'r Adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth y gellid, yn rhesymol, ddisgwyl iddi arwain at ymgynghoriadau neu drafodaethau gyda staff yr Awdurdod ac y gellir, o bosib, eu hadnabod yn anuniongyrchol trwy drafod yr adroddiad yn gyhoeddus. <i>Information relating to sensitive financial and business affairs of the Authority are to be discussed.</i> <i>The report also contains information which might reasonably be expected to result in consultations or negotiations with staff of the Authority and who may be indirectly identified by discussion of the report in the public domain.</i>	
<p>Argymhelliad - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth</p> <p>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</p>		

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

PRAWF BUDD Y CYHOEDD

PUBLIC INTEREST TEST

(Teitl yr Adroddiad/Title of Report) Opsiynau Gofal Ychwanegol yn Amlwch a Llangefni/Extra Care Options in Amlwch & Llangefni

Paragraff(au) 12, 13 & 14 Deddf Llywodraeth Leol 1972 Paragraph(s) 12, 13 & 14 Local Government Act 1972	
Y PRAWF – THE TEST	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae gan y cyhoedd ddiddordeb mewn gwybod am faterion sy'n ymwneud â chynigion y Cyngor ar gyfer datblygu Gofal Ychwanegol.</p> <p>There is public interest in knowing of matter which relate to the Council's proposals for developing Extra Care.</p>	<p>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Y mae'n rhesymol i ddisgwyl bod y wybodaeth sydd yn yr adroddiad yn wybodaeth sy'n fasnachol sensitif, a byddai ei gyhoeddi yn niweidiol i'r Cyngor pan fydd yr Awdurdod yn mynd allan i Dendr ar adeiladu'r Gofal Ychwanegol. Hefyd, oherwydd gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno) a gwybodaeth mewn perthynas ag unigolyn penodol neu wybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unrhyw unigolyn.</p> <p>There is a reasonable expectation that the information contained in the report is commercially sensitive, and its publication would be detrimental to the Council when the Authority goes out to Tender on the building of Extra Care. Also due to information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the Authority holding that information) and information relating to a particular individual or information which is likely to reveal the identity of an individual.</p>
<p>Argymhelliad - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.</p> <p>Recommendation - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</p> <p>Byddai budd y cyhoedd yn cael ei wasanaethu orau drwy ystyried y wybodaeth hon fel gwybodaeth eithriedig Categori 2./The public interest is best served by considering this information as Category 2 exempt.</p>	

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD AT:	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
DYDDIAD:	Hydref 15, 2014
PWNC :	Moderneiddio Ysgolion Môn
AELODAU PORTFFOLIO(AU):	Cynghorydd Ieuan Williams
AWDUR YR ADRODDIAD Rhif Ffôn: E-bost:	Emrys Bebb

1.0 ARGYMHELLION

Yn ei gyfarfod ar Ragfyr 10, 2012, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn Argymell uno 3 ysgol h.y. Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis mewn ysgol newydd fel opsiwn dewisol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori ffurfiol ac mai safle Cybi ddylai'r safle dewisol fod ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi.

Ar Fai 19, 2014 awdurdodwyd swyddogion i symud tuag at y broses ymgynghori ffurfiol. Y cynnig ar gyfer ymgynghori ffurfiol oedd ar gyfer ysgol gynradd i 540 o ddisgyblion a 75 o ddisgyblion meithrin drwy gyfuno disgyblion o Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc mewn adeilad newydd ar safle Cybi. Statws yr ysgol yr ymgynghorir yn ei chylch yw iddi fod yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru (yn yr un modd ag Ysgol y Parchedig Thomas Ellis).

Mae'r adroddiad yn manylu ar y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghori ffurfiol. Mae hefyd yn cyflwyno ymateb ffurfiol y Cyngor i bryderon y rhanddeiliaid.

Mae hefyd yn gwneud yr argymhelliad canlynol:

Argymhellir fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn argymell y dylai'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu'r penderfyniad i uno'r tair ysgol (Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc) mewn adeilad ysgol newydd ar safle Cybi ac y byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn ysgol dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

2.0 RHESYMAU

Mae'r gwrthwynebiad i'r cynnig yn troi o amgylch y materion a ganlyn.

- Pryderon iechyd a diogelwch – ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, trafndiaeth a diogelwch ffordd.
- Argaeledd cludiant i ac o'r ysgol newydd.

- Maint yr ysgol newydd
- Maint dosbarthiadau a staffio
- Materion adeiladu a safle [addasrwydd a rhy agos at yr ysgol uwchradd]
- Arian a gwario'r arian ar y tair ysgol ar wahân
- Lleoedd dros ben
- Statws yr ysgol newydd

Dadleuir bod y Cyngor wedi ymateb yn briodol i'r holl bryderon a amlygwyd uchod cyn belled â bod:

- yr asesiad effaith trafndiaeth yn awgrymu bod y prosiect yn ddichonol;
- byddai adferiad sympathetig adeilad Cybi yn darparu amgylchedd dysgu uchel ei ansawdd;
- mae'r safle'n ddigonol i gartrefu ysgol o'r maint hwn gan y byddai'r ysgol gynradd newydd arfaethedig yn fwy na chydymffurfio â'r rheoliadau Bwletin Adeiladu 99;
- ni fyddai maint dosbarthiadau'n mynd dros 30;
- cedwir y dewis rhwng darpariaeth addysg gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Pabyddol, cymunedol a chyfrwng Cymraeg yng Nghaergybi os bydd yr ysgol newydd yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru;
- byddai'r ysgol newydd yn mynd i'r afael ag ôl-groniad cynnal a chadw uchel a phryderon am amodau a pherfformiad ynni'r tair ysgol bresennol;
- bydd y cynnig yn mynd i'r afael â lleoedd dros ben ar draws y tair ysgol;
- y tebygrwydd y bydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.


Awdur: Emrys Bebb
 Teitl Swydd: Rheolwr Rhaglen
 Dyddiad: Hydref 7 2014



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**SWYDDOGOL - OFFICIAL
YMATEB I'R YMGYNGHORIAD STATUDOL - ARDAL CAERGYBI
RESPONSE TO THE STATUTORY CONSULTATION - HOLYHEAD
AREA**

Mehefin 16 – Gorffennaf 27, 2014 / June 16 – July 27, 2014



**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
ADRAN DYSGU GYDOL OES / LIFELONG LEARNING DEPARTMENT**

www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk

Medi / September 2014

1.	CEFNDIR	3
2.	YMATEBION O YSGOL Y PARC	6
3.	YMATEBION O YSGOL Y PARCHEDIG THOMAS ELLIS	6
4.	YMATEBION O YSGOL LLAINGOCH	7
5.	ADBORTH GAN DDISGYBLION	9
6.	ADBORTH GAN ESTYN	11
7.	YMATEB Y CYNGOR I'R PRYDERON A GODWYD	15
8.	CASGLIADAU	25

DRAFT

1. CEFNDIR

- 1.1 Yn Ionawr 2012, rhoddodd Bwrdd Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn ganiatâd i swyddogion y Gwasanaeth Addysg ymweld ag ysgolion cynradd yng Nghaergybi i ymgynghori ar opsiynau ar gyfer darpariaeth addysg ysgol gynradd yn yr ardal.
- 1.2 Wedi derbyn y caniatâd hwn, cynhaliodd swyddogion yr Adran Dysgu Gydol Oes gyfarfodydd ymgynghori gyda staff, llywodraethwyr a rhieni ym Mai a Mehefin 2012 a dilynodd cyfnod ymgynghori o 6 wythnos a ddaeth i ben ar Orffennaf 14, 2012.
- 1.3 Derbyniwyd dros 100 o ymatebion a chrynowyd adroddiad yn manylu ar y rhain gan swyddogion a chyflwynwyd i Bwyllgor Craffu Addysg a Hamdden Cyngor Sir Ynys Môn yn ei gyfarfod ar Hydref 26, 2012.
- 1.4 Yn y cyfarfod hwnnw ar Hydref 26, 2012, penderfynodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Hamdden:
 - Argymhell Opsiwn 10 (uno 3 ysgol h.y. Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis mewn ysgol newydd) i'r Pwyllgor Gwaith fel opsiwn dewisol y Pwyllgor ar gyfer ymgynghori ffurfiol yn ddarostyngedig i ymroi'n foddhaol i fforddiadwyedd a rheolaeth trafndiaeth a materion diogelwch ffyrdd.
 - Argymhell mai'r safle dewisol ar gyfer lleoli'r ysgol gynradd newydd fyddai safle Cybi.
- 1.5 Yn ei gyfarfod ar Ragfyr 10, 2012, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn :
 - Argymhell Opsiwn 10 (uno 3 ysgol h.y. Ysgol y Parc, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis mewn ysgol newydd) fel opsiwn dewisol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori ffurfiol;
 - Mai'r safle dewisol ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi fydd safle Cybi ;
 - Cyn mynd allan i ymgynghoriad, bod adroddiad yn cael ei ddwyn yn ôl i aelodau'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r materion a ganlyn:
 - perchnogaeth tir ar y tri safle,
 - fforddiadwyedd,
 - rheoli trafndiaeth,
 - diogelwch y ffordd,
 - statws yr ysgol newydd a
 - materion sy'n gysylltiedig â'r gorchymyn cadwraeth yng nghyn-safle ysgol Cybi.
- 1.6 Sicrhawyd cyllid, mewn egwyddor, ar gyfer yr ysgol gynradd newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddai'n barod i gyfrannu mwyafswm o 50% o gost yr ysgol newydd arfaethedig ond byddai i'r awdurdod baratoi achos busnes i gyfiawnhau'r gwariant hwn.
- 1.7 Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar y pwyntiau a nodwyd yn 1.5 [gweler isod] i'r Pwyllgor Gwaith ar Fai 19, 2014 ac awdurdodwyd swyddogion i symud tuag at y broses ymgynghori ffurfiol.

Perchnogaeth Tir y safleoedd

Yn dilyn ymgynghoriad gyda Thîm Cyfreithiol y Cyngor, cadarnhawyd bod Ysgol Llaingoch ac Ysgol y Parc wedi eu cofrestru ym mherchnogaeth y Cyngor. Nid yw'r sefyllfa mewn perthynas ag Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis mor uniongyrchol. Mae angen gwneud gwaith pellach i grisialu'r sefyllfa bresennol.

Fforddiadwyedd

Amcangyfrifwyd ar y cychwyn y byddai cyfanswm y gost o ddatblygu safle Cybi yn £13,600,000. Mynegodd swyddogion Llywodraeth Cymru y farn bod y gost adeiladu a nodwyd uchod yn gymharol uchel. Rhagwelir yn awr y bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn costio llai na £10 miliwn.

Materion Rheoli Trafnidiaeth a diogelwch ffyrdd

Asesodd swyddogion o'r Adran Briffyrdd y gwaith a fyddai'n ofynnol i sicrhau ffordd ddiogel i'r ysgol newydd arfaethedig. Yn dilyn hynny, gwnaeth swyddogion y Gwasanaeth Priffyrdd a Rheoli Gwastraff gais llwyddiannus ar gyfer grant Ffyrdd diogelach yn y Gymuned gan Lywodraeth Cymru am £422,000.

Statws yr ysgol newydd

Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol y Parchedig Thomas Ellis. Os cynhwysir yr ysgol hon yn yr ad-drefnu, bydd angen penderfynu ar statws yr ysgol newydd. Mae Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru yn awyddus i'r ysgol newydd fod yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac i'r ymgynghoriad statudol fod ar y sail y bydd yr ysgol newydd yn Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Gorchymyn cadwraeth CADW ar gyn-safle Ysgol Cybi

Rhestrwyd bloc Cybi a'r waliau terfyn gan CADW ar 13^{eg} Mawrth 2009. Mae'r ddau wedi eu rhestru'n radd II. Nid yw maint yr amddiffyniad yn cynnwys y safle ond mae'n cynnwys y tu mewn a'r tu allan i flocc Cybi ac un rhywbeth sydd wedi ei sicrhau wrth yr adeilad. Y cyngor o'r Gwasanaeth Cynllunio wrth ystyried datblygiad mewn lleoliad adeilad rhestredig, yw bod yn rhaid talu sylw arbennig i gadw lleoliad yr adeilad. Yn yr achos hwn, mae lleoliad y tu blaen yn hollbwysig tra bo mwy o bosibiliadau'n bodoli yn y cefn. Gan fod yr adeilad a'r wal derfyn wedi eu rhestru'n gymharol ddiweddar yn unig, cynghorodd CADW swyddogion y Cyngor mai ychydig iawn o debygolrwydd sydd o wneud cais llwyddiannus ar gyfer tynnu oddi ar y rhestr. Roedd pryderon hefyd ynghylch cyflwr yr adeilad oherwydd nad oedd wedi ei ddefnyddio ers rhai blynedd, mynediad dŵr oherwydd bod seliau plwm wedi eu lladrata ayyb. Bydd hynny'n cynyddu cost gyffredinol adeiladu'r ysgol newydd.

Y cynnig ar gyfer ymgynghori ffurfiol oedd ar gyfer ysgol gynradd i 540 o ddisgyblion a 75 o ddisgyblion meithrin drwy gyfuno disgyblion o Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis, Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc mewn adeilad newydd ar safle Cybi. Statws yr ysgol yr ymgynghorir yn ei chylch yw iddi fod yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru (yn yr un modd ag Ysgol y Parchedig Thomas Ellis). Y bwriad yw i'r ysgol fod â lle i 540 oherwydd bod nifer y disgyblion yn y tair ysgol yn cynyddu ychydig ac mae datblygiadau tai newydd wedi eu cynllunio yn y dalgylch a fydd yn peri bod mwy o blant yn mynychu'r ysgol gynradd newydd arfaethedig.

1.8 Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o Fehefin 16^{eg} 2014 tan Orffennaf 27^{ain} 2014.

1.9 Trefnwyd cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid ysgol dros y cyfnod hwn fel yr amlinellwyd isod:

Ysgol	Dyddiad (yn 2014)	Cyfarfod gyda		
		Staff	Llywodraethw yr	Rhieni
Y Parch. Thomas Ellis	Dydd Iau, Mehefin 19	3.45	5.00	6.00
Llaingoch	Dydd Mawrth, Gorffennaf 1	3.45	5.00	6.00
Y Parc	Dydd Iau, Gorffennaf 3	3.45	5.00	6.00

2. YMATEBION O YSGOL Y PARC

2.1 Derbyniwyd cyfanswm o 7 o ymatebion gan rieni disgyblion yn yr ysgol.

2.2 Derbyniwyd un ymateb drwy e-bost gan fam i ddau o blant yn yr ysgol. Dywedodd ei bod "wrth ei bodd" bod yr ysgol newydd yn debygol o fynd yn ei blaen.

2.3 Derbyniwyd y chwe ffurflen ymateb arall gan rieni disgyblion yn yr ysgol. Roedd pedwar yn erbyn y cynnig tra roedd dau o'i blaid. Roedd y rhai yn erbyn yn crybwyll pwyntiau megis 'niferoedd dosbarth mawr', '**iechyd a diogelwch**', '**costau uchel**' ac o bosibl '**ôl troed carbon**' uwch fel rhesymau dros wrthwynebu'r datblygiad arfaethedig. Roedd y rhai a oedd o blaid yn dweud na all 'gwell cyfleusterau ac adeiladau gwell ond gwneud am ddyfodol gwell' ac na all 'ysgol ddiweddar gyda chyfleusterau ac offer gwych ond bod yn beth da i'r plant a fydd yn mynychu'r ysgol honno'.

2.4 Roedd Corff Llywodraethu Ysgol y Parc, 'mewn egwyddor, yn ffafrio'r ysgol newydd' ond yn teimlo bod lefel yr wybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol yn 'siomedig'. Roeddent yn teimlo bod gwybodaeth bellach yn ofynnol ar y materion a ganlyn.

- **Trafnidiaeth a diogelwch ffyrdd**
- **Maint dosbarthiadau a staffio**
- **Anghenion Addysgol Arbennig**
- **Cyllid**
- **Adeilad a safle**
- **Statws yr ysgol newydd**

2.5 Mae copi o lythyr y Corff Llywodraethu wedi ei gynnwys yn **Atodiad 1**.

3. YMATEBION O YSGOL Y PARCHEDIG THOMAS ELLIS

- 3.1 Derbyniwyd ymateb gan un rhiant. Tra'i fod/bod yn siomedig y gall yr ysgol gau, gallai'r unigolyn 'weld y rhesymau y tu ôl iddo'. Roedd yr ymateb hefyd yn nodi'r gobaithe y bydd 'yr holl **staff** yn cael eu **cadw**'. Roedd yr ymateb hefyd yn cwestiynu pam y dylai'r ysgol newydd arfaethedig fod yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.
- 3.2 Ymgynghorodd swyddogion gydag Adran Addysg Esgobaeth Bangor cyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae hyn yn unol â'r arweiniad yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2013 rhan 3.4 paragraff 3 [tudalen 31]. Derbyniwyd llythyr dwyieithog gan Adran Addysg Esgobaeth Bangor drwy e-bost ar Orffennaf 24, 2014 yn nodi bod yr Adran 'yn aros yn ymrwymedig i'r ysgol newydd fod yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru ac yn gobeithio y bydd yr Awdurdod Lleol yn archwilio i bosibiliadau a fyddai'n lleihau effeithiau teithio ymhellach i'r ysgol newydd arfaethedig'. Credir y byddai ar yr Adran eisiau i'r Awdurdod ddarparu rhyw ffurf o gludiant ar gyfer disgyblion o ardal Treseifion i'r ysgol gynradd newydd arfaethedig. Cynhwysir copi o lythyr yr Esgobaeth yn **Atodiad 2**.
- 3.3 Dywedodd Corff Llywodraethu Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis bod 'ei Addysg ysgol eglwysig wedi bod yn rhan o ddarpariaeth addysgol yng Nghaergybi ers 1748' ac 'mae'r staff yn adnabod er mwyn sicrhau a gwella'r ddarpariaeth hon, bod yr amser wedi dod i ystyried adleoli eto.' Roedd y Corff Llywodraethu yn cydnabod mater lleoedd dros ben ac yn datgan bod gan yr ysgol gynradd newydd arfaethedig 'lawer i'w chymeradwyo yn arbennig gan y bydd lle a darpariaeth ar gyfer brechwast a chlybiau ar ôl ysgol'. Fodd bynnag, roeddent yn nodi'r pryderon a ganlyn.
- Staff yn poeni am **ddiogelwch eu swyddi**.
 - **Argaeledd cludiant i ac o'r ysgol newydd**.
 - Mater **llwybrau diogel i ac o'r ysgol newydd**.
- 3.4 Cynhwysir copi o lythyr y Corff Llywodraethu yn **Atodiad 3**.

4. YMATEBION O YSGOL LLAINGOCH

- 4.1 Derbyniwyd cyfanswm o 117 o ymatebion gan randdeiliaid ysgol - roedd 51 neu 44% gan rieni disgyblion Ysgol Llaingoch. Roedd pob ymateb yn gwrthwynebu'r cynnig a amlinellwyd yn 1.8 uchod. Derbyniwyd ymatebion hefyd gan y Pennaeth, y staff a'r Corff Llywodraethu. Yn ychwanegol, derbyniwyd deiseb o 187 o enwau "I gadw Ysgol Llaingoch yn Agored". Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn y ffurflenni adborth wedi eu grwpio o dan y categorïau a nodwyd isod.
- 4.2 Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (49%) o'r farn y byddai **trafnidiaeth** gysylltiedig â'r ysgol newydd arfaethedig yn broblemus, gan nodi y byddai hyn "yn arwain at dagfeydd". Roedd eraill yn nodi nad oedd arnynt eisiau i blant ifanc "orfod croesi ffordd arfaethedig beryglus i gae chwarae Millbank ar gyfer gwersi A.G.". Roedd rhai (7 neu 6%) yn teimlo nad oedd yr Awdurdod wedi ystyried rheoli trafndiaeth na sut y byddai disgyblion o Dreseifion yn cael i'r ysgol newydd arfaethedig.
- 4.3 Yn ychwanegol, nododd 18 o ymatebwyr (17%) bryderon ar gyfer **diogelwch disgyblion ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol**, gan ddatgan y gellid peryglu diogelwch disgyblion.

4.4 Roedd nifer o ymatebwyr (38%) yn anghytuno gyda **dewis safle Cybi** yn lleoliad ar gyfer yr ysgol gynradd newydd arfaethedig. Rhai o'r rhesymau a grybwyllwyd oedd "roedd y safle'n rhy fychan", fel nad oes "man gwyrdd ar y safle" neu fod adeilad Cybi "wedi dyddio" ac yn "anaddas" ac yn "hen ac yn llaith". Roedd eraill yn meddwl bod "adeiladwaith yr adeilad yn anaddas".

Roedd ychydig, (5 neu 5%), nad oedd yn meddwl bod gan safle Cybi **le gwyrdd digonol** h. y. caeau chwarae i'r plant ac nad oedd digon o leoedd chwarae ar y safle.

4.5 Roedd rhai, (16 neu 15%), o'r ymatebwyr yn meddwl bod yr ysgol gynradd newydd arfaethedig yn "**rhy agos i Ysgol Uwchradd Caergybi**" ac y byddai disgyblion o'r uwchradd yn "ddylanwad drwg ar y disgyblion iau" ac y gallai'r sefyllfa arwain at fwlio.

4.6 Beirniadodd saith o ymatebwyr (6%) hefyd **absenoldeb cynllun neu ddiagram o'r ysgol gynradd newydd arfaethedig**.

4.7 Roedd nifer o ymatebwyr (15 neu 14%) yn meddwl bod **y drefn addysgol bresennol yn iawn** ac na ddylid ei newid. (Roeddent yn teimlo y dylid gwario'r arian naill ai ar y tair ysgol gynradd dan sylw neu ar Ysgol Uwchradd Caergybi yn hytrach nag ar adeiladu'r hyn yr oedd rhai yn cyfeirio ati fel "uwchysgol".

4.8 Roedd nifer o ymatebwyr (15 neu 14%) yn teimlo bod **Llaingoch** yn bentref sydd ar wahân i Gaergybi ac sydd felly'n **haeddu ysgol ar wahân** ac y dylid cyfuno Ysgol y Parchedig Thomas Ellis ac Ysgol Y Parc.

4.9 Roedd rhai (6%) yn teimlo mai dim ond 3% o leoedd dros ben a oedd yn Ysgol Llaingoch, a bod yr Awdurdod yn 'creu lleoedd dros ben ychwanegol'.

4.10 Roedd saith ymatebwyr (6%) **yn gwrthwynebu i'r cynnig y byddai'r ysgol newydd yn ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru**, gan ddatgan eu bod yn "gwrthwynebu i'r ysgol gael ei chyfarwyddo gan gorff crefyddol". Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn lleihau'r dewis o'r "math o ysgol yr oeddent yn ei ddymuno i'w plant".

4.11 Roedd saith o ymatebwyr (6%) yn meddwl y byddai cyfuno'r ysgol mewn adeilad newydd yn **peryglu "hawl y plant i gael eu haddysgu ac i chwarae yn eu hiaith naturiol"**, sef y Gymraeg.

4.12 Roedd **maint dosbarthiadau** yn bryder i 7 o'r ymatebwyr (6%) gan eu bod yn pryderu y bydd "maint dosbarthiadau'n rhy fawr". Roedd eraill yn ofni y byddai "swyddi addysgu'n cael eu colli" ac yr effeithid ar safonau.

4.13 Derbyniwyd pedwar llythyr oddi wrth athrawon yn Ysgol Llaingoch lle roeddent yn cytuno gyda phryderon rhieni ac eraill a amlinellwyd uchod ac roeddent yn feirniadol o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori y dywedent nad oedd wedi eu hargyhoeddi. Rhestrodd y staff y chwe phrif bwynt a ganlyn.

- Mae'r ysgol newydd arfaethedig yn "rhy fawr ac yn rhy amheronol"
- Nid yw safle Cybi "unlle'n agos i fod yn addas"
- Trafnidiaeth
- Tir annigonol

- “Dim ystyriaeth briodol o werth ysgol i’w lleoliad”
- Nid yw’r ddogfen ymgynghori’n glir

Mae copi o’r llythyr gan y staff wedi ei gynnwys yn **Atodiad 4**.

- 4.14 Roedd llythyr gan y **Pennaeth** yn adleisio’r uchod ond hefyd yn datgan y gallai’r “Gymraeg gael ei meithrin yn well mewn unedau llai”. Cynhwysir copi o lythyr y Pennaeth (yn Gymraeg) yn **Atodiad 5**. Rhestrir pum prif bwynt yn y llythyr.
- Nid yw’r Awdurdod “wedi arfarnu anghenion y dref yn ei chyfanrwydd”.
 - Y “diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn ystod y broses ymgynghori”
 - “Nid yw safle Cybi’n addas” ac mae’n “rhy agos i’r ysgol uwchradd”
 - Cadw ysgolion yn “ddigon bychan” fel bod y Pennaeth yn adnabod y disgyblion wrth eu henwau
 - “Mae meithrin y Gymraeg yn haws mewn unedau llai”
- 4.15 Roedd **Corff Llywodraethu** Ysgol Llaingoch yn feirniadol o “ddiffyg eglurder yn y ddogfen ymgynghori ffurfiol” ac yn amau dilysrwydd y broses. Cynhwysir copi o ymateb y Corff Llywodraethu yn **Atodiad 6**.
- 4.16 Roedd un llythyr yn cynnwys yr awgrymiad y dylid datgysylltu “Ysgol Llaingoch a mynd ymlaen gydag ysgol lai”.

5. ADBORTH GAN DDISGYBLION

- 5.1 Cynhaliodd swyddogion o’r Gwasanaeth Ieuenctid gyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o bob un o’r tair ysgol. Gofynnwyd y cwestiynau a ganlyn i bob grŵp.
- Beth a allai fod yn ‘DDA’ am symud i ysgol newydd?
 - Beth a oedd yn eu poeni am ysgol newydd (DRWG)?
 - Pe bai’r Cyngor yn penderfynu mynd yn ei flaen gyda’r cynlluniau ar gyfer ysgol newydd beth a fyddai’n ei gwneud yn haws i’r disgyblion symud?
- Amlinellir yr ymatebion isod (cynhwysir adroddiad manylach yn **Atodiad 7**).
- 5.2 **Cwestiwn:** Beth a allai fod yn ‘DDA’ ynghylch symud i ysgol newydd?

Y Parchedig Thomas Ellis	Llaingoch	Y Parc
Cyfleusterau newydd Cyfarfod â phlant newydd Agos i gartref Athrawon newydd Ysgol fodern Clybiau Bod â’r un athrawon Mwy o blant yn yr ysgol Roedd un disgybl wedi symud o ysgol fawr iawn yn Lloegr ac roedd yn hoffi cael llawer o gyfeillion	Yn dda rhoi cynnig ar bethau newydd Offer ‘diweddaraf’ Cyfarfod ag athrawon newydd Mwy o gyfle i fod mewn mwy o dimau e.e. pêl-droed Mwy o gyfeillion Adnoddau gwell	Mwy o gyfeillion Mwy o le Mae’n dda rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol Dosbarthiadau/ystafelloedd dosbarth mwy Cynlluniau Gallai fod yn hwyl

- 5.3 **Cwestiwn:** Beth oedd yn eu poeni ynghylch ysgol newydd (DRWG)?

Y Parchedig Thomas Ellis	Llaingoch	Y Parc
--------------------------	-----------	--------

<p>Dim yn gallu gwneud ffrindiau efallai Bwllis o fannau eraill Plant mawr Y swm Iard chwarae fechan Nerfus o fynd i ysgol newydd Y gwaith yn anos Mae'r ysgol bresennol yn Ysgol Eglwysig ac felly ni ellir ei huno â'r ysgolion eraill Ymhellach i rai plant gerdded</p>	<p>Nid yw'n ysgol bentref Byddai dosbarthiadau'n fawr – efallai hyd at 40 o ddisgyblion? Croesi'r ffordd Cael eich bwllio gan blant o ardaloedd eraill Clybiau'n rhy fawr – dim cyfle i bawb gymryd rhan Staff da yn colli eu gwaith Parcio i rieni Colli'r hanes a'r atgofion sy'n rhan o'r ysgol (mam/dad/nain / wedi mynychu'r ysgol hon o'u blaenau) Cerdded i'r ysgol yn y glaw/gelltydd i'w dringo Trafnidiaeth Mynd ar goll yn yr ysgol Llai o gyfle i fod mewn tîm ysgol oherwydd cystadlaethau am leoedd gyda nifer fawr o blant A fydd 'band llydan' yn gweithio'n dda yno ac a fydd gan bob disgybl fynediad hawdd iddo? Croesi'r ffordd i'r meysydd chwarae Bylchau mewn ffensys/waliau yng nghefn safle'r ysgol arfaethedig - a fydd yn ddiogel i'r plant?</p>	<p>Bod ofn uchderau Bwllio Ofn gorfod bod gyda phlant newydd Dim yn gwybod lle byddai popeth Ni fyddem yn adnabod yr athrawon Bod yn swil Anodd gwneud cyfeillion newydd Ysgol brysur a'r iard yn llawn Mae'n anodd i'r plant bach fynd yn syth i ysgol fawr heb fod mewn ysgol fechan yn gyntaf Dim meysydd chwarae</p>
--	---	---

5.4 **Cwestiwn:** Pe bai'r Cyngor yn penderfynu mynd yn ei flaen gyda'r cynlluniau ar gyfer ysgol newydd beth a fyddai'n ei gwneud yn haws i'r disgyblion symud?

Y Parchedig Thomas Ellis	Llaingoch	Y Parc
<p>Bod gan y cyngor ysgol lais yn y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd Cadw'r un athrawon i symud gyda hwy Cadw'r un grwpiau oedran mewn rhai mannau yn yr iard Roedd llawer o'r disgyblion eisoes yn adnabod plant neu'n perthyn i blant a oedd yn mynychu'r ysgolion eraill</p>	<p>Nid oedd llawer o ddisgyblion yn adnabod plant o ardaloedd eraill, ac felly byddent yn hoffi eu cyfarfod cyn symud. Gweld yr ysgol newydd cyn symud yno Gallu dewis mynd i ysgol newydd, a pheidio â chael eu gorfodi i fynd yno Gwneud yn siŵr y bydd yr addysg yn well oherwydd gwell cyfleusterau Yr athrawon yn gallu symud gyda hwy Gwario ar wella'r ysgol bresennol yn hytrach nag ar adeilad ysgol newydd</p>	<p>Yr athrawon yn symud gyda hwy Y disgyblion â llais yn y penderfyniadau ynghylch ysgol newydd e.e. enw'r ysgol, gwisg ysgol, logo'r ysgol Lleoedd gwahanol o fewn yr ysgol ar gyfer oeddrannau gwahanol Y disgyblion yn cael profi am wythnos, fel y maent cyn mynd i'r ysgol Uwchradd Meysydd chwarae da Gallu gweld y cynlluniau ar gyfer yr ysgol ymlaen llaw Digonedd o le Clybiau newydd e.e. drama, cerddoriaeth, pêl-droed, celf</p>

	Disgyblion â llais yng nghynllunio'r ysgol newydd e.e. yr adeilad, yr enw, a'r wisg ysgol Parthau gwahanol ar gyfer oedrannau gwahanol o fewn yr ysgol	Gwybod beth fyddai'r dewis ar gyfer cinio ysgol a sut y byddai cymaint o ddisgyblion yn cael eu bwydo ar yr un pryd
--	--	---

5.5 **Cwestiwn:** un rhywbeth arall?

Y Parchedig Thomas Ellis	Llaingoch	Y Parc
Byddai'r disgyblion yn hoffi bod yn rhan o drafodaethau ar gyfer enw'r ysgol, gwisg ysgol ayyb.	-	-

5.6 Amlygodd yr ymatebion rai materion cyffredin

Mewn perthynas â'r cwestiwn "Beth a allai fod yn 'DDA' am symud i ysgol newydd?", roedd ymatebion cyffredin yn cynnwys "cyfleusterau newydd, "offer diweddaraf" ac "adnoddau gwell".

Tynnodd y cwestiwn: "Beth oedd yn poeni plant ynghylch symud i ysgol newydd?" yr ymatebion cyffredin a ganlyn "cael eu bwlio gan blant o ardaloedd eraill", "maint dosbarthiadau", "trafnidiaeth, parcio a chroesi ffyrdd". Mynegodd disgyblion o Ysgol y Parchedig Thomas Ellis y farn "ei bod yn bellach i rai plant gerdded" i'r ysgol newydd arfaethedig.

Ysgogodd y trydydd cwestiwn - "Pe bai'r Cyngor yn penderfynu mynd yn ei flaen gyda'r cynlluniau ar gyfer ysgol newydd beth a fyddai'n ei gwneud yn haws i ddisgyblion symud?" – yr ymatebion a ganlyn.

- Byddai'r disgyblion yn hoffi gweld yr ysgol newydd cyn symud a chael cyfnod o "brofi" bod yn yr ysgol newydd.
- Roedd y disgyblion hefyd yn awyddus i gael yr "un grŵp oedran mewn rhai lleoedd yn yr iard chwarae" a chael "parthau gwahanol ar gyfer oedrannau gwahanol o fewn yr ysgol".

6. ADBORTH GAN ESTYN

- 6.1 Anfonwyd y ddogfen ymgynghorol i Estyn i gael ei hadolygu. Roedd yr ymateb a dderbyniwyd yn cyfeirio at bob cam yn y broses ymgynghori statudol a chaiff ei chrynhai isod.

Cwestiwn – Pa mor dda y mae'r cynigydd:	Ateb
Wedi rhoi rhesymeg eglur am y cynnig?	Mae'r rhesymau a restrir yn "briodol".
Gosod allan yn eglur ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwylidig?	"At ei gilydd, mae'r awdurdod yn rhoi achos cryf ymlaen ar gyfer y cynnig"
Wedi ystyried ffyrdd eraill addas?	"Mae'r awdurdod wedi ystyried ffyrdd eraill addas yn briodol"
Wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr?	"Mae'r awdurdod wedi rhoi gwybodaeth berthnasol yn briodol ar effaith y newidiadau arfaethedig mewn teithio dysgwyr a hygyrchedd y ddarpariaeth i ddysgwyr."
Wedi dangos yn effeithiol sut yr effeithir ar leoedd dros ben?	"Mae'r cynnig yn manylu ar wybodaeth berthnasol mewn perthynas â niferoedd disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol, ar hyn o bryd ac y rhagamcenir."
Wedi ystyried effaith y cynigion ar addysg gyfrwng Cymraeg?	"Mae'r awdurdod yn ystyried effaith y cynigion ar addysg gyfrwng Cymraeg yn briodol."
Wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	"Mae'r cynnig yn rhoi adroddiad cyfansawdd am y deilliannau ym mhob un o'r tair ysgol yn nhermau canlyniadau diwedd cyfnod allweddol a deilliannau arolygiad Estyn ."
Wedi ystyried effaith debygol y cynigion i sicrhau cyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y Cam Sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol?	"Mae'r awdurdod wedi ystyried effaith debygol y cynnig i sicrhau cyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y Cam Sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol."

- 6.2 Fodd bynnag, rhestrodd Estyn rai gwendidau. Mae'r rhain, ac ymateb yr Awdurdod wedi eu rhestru isod.

Pa mor dda y mae'r cynigydd wedi rheoli unrhyw risgiau cysylltiedig â'r cynnig?

Nododd Estyn nad yw'r Awdurdod "wedi adnabod risgiau priodol cysylltiedig â'r cynnig".

Fodd bynnag, roedd hyn wedi ei wneud ond nid anfonwyd y gofrestr risgiau i Estyn. Ers hynny mae'r Awdurdod wedi diweddarau'r gofrestr risgiau ar gyfer y prosiect ac mae proses llywodraethu ac adolygu rheoli risg wedi ei ffurfio (egllurir ar ffurf siart lif), a'i chytuno gan y Bwrdd Trawsnewid Addysg a'r Swyddfa Rheoli Prosiectau Corfforaethol. Mae llwyddiant yr ysgol newydd arfaethedig a goblygiadau rhieni'n dewis darpariaeth wahanol i'r ysgol newydd yn cael eu cymryd o ddifrif. Yn ymateb, bydd yr Awdurdod yn sefydlu grŵp ymrwymo rhanddeiliaid i **sicrhau** tryloywder gwneud penderfyniadau i randdeiliaid allweddol. Yn wir mae wedi ei adnabod bod ymrwymiad randdeiliaid effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y prosiect.

Pa mor dda y mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Nododd Estyn : “Fodd bynnag, nid yw (Cyngor Ynys Môn) yn cyfeirio at gategori o risg yr awdurdod lleol / y consortiwm a chefnogaeth i bob un o'r ysgolion ac nid yw ychwaith yn ystyried yn ddigon da gallu arweinyddol yr ysgolion.”

O'r tair ysgol, mae dwy (Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc) ar hyn o bryd wedi eu hadnabod yn “ysgolion sydd angen cefnogaeth a monitro ffocysedig [oren]” yn unol â Chytundeb yr ALI/Partneriaeth Ysgolion, tra bod Ysgol Y Parch. Thomas Ellis wedi ei hadnabod fel un sydd yn y categori “ysgolion sydd angen monitro a chefnogaeth ysgafn [melyn]. Bydd y broses gategoreiddio yn newid yn ddiweddarach eleni gyda mabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.

Mae Ysgol Y Parch Thomas Ellis ac Ysgol Llaingoch yn cael eu harwain gan Benaethiaid profiadol tra bod Ysgol Y Parc yn cael ei harwain gan Bennaeth dros dro. Adnabuwyd Ysgol Y Parc ac Ysgol Y Parch Thomas Ellis yn fwyaf diweddar fel ysgolion lle mae'r capasiti i wella yn dda tra mai digonol yw'r agwedd hon ar gyfer Ysgol Llaingoch, tra adnabyddir bod gwelliannau diweddar wedi eu gweithredu yn yr ysgol honno. Adolygir yr wybodaeth hon ymhellach ar ddiwedd y flwyddyn bresennol.

Pa mor dda y mae'r cynigydd wedi ystyried effaith y cynigion ar grwpiau bregus, yn cynnwys plant gydag AAA?

Yn hyn o beth, dywedodd Estyn bod y cynnig yn brin o fanylion digonol am yr effaith ar grwpiau bregus, yn cynnwys plant gydag Anghenion Addysgol Arbennig.

Mae effaith y cynnig ar grwpiau bregus, yn cynnwys plant gydag AAA wedi eu hamlygu yn yr achos busnes amlinellol. Ar hyn o bryd dim ond un o'r tair ysgol sydd â chyfleuster AAA un pwrpas neu leoedd tynnu allan. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cyfarfod ag anghenion disgyblion gydag AAA yn effeithiol. Bydd cynnig ysgol newydd yn darparu cyfleusterau addysgol a chymunedol gwell a lleoedd AAA arbenigol.

Bydd man ysgol ardal newydd hefyd yn darparu cyfleoedd i weithio gyda'r gymuned leol a gwasanaethau lleol i gynnig mentrau cydweithredol i fynd i'r afael ag anfanteision, ac i ddal arbenigedd er mwyn ymroi i'r heriau y maent yn eu hwynebu a lleihau'r rhwystrau i ddysgu. Yn wir bydd datblygu cyfleuster o'r radd flaenaf yn dod â manteision cymunedol ac addysgol sylweddol i ardal sydd mewn mawr angen ei hadfywio a'i hadnewyddu.

Pa mor dda y mae'r cynigydd wedi ystyried tarfu ar ddysgwyr?

Roedd ateb Estyn yn nodi “nad yw'r Awdurdod yn disgrifio sut y bydd yn lleihau unrhyw darfu ar ddysgwyr os gweithredir y cynnig”.

Sylweddolir manteision yr ysgol newydd arfaethedig ar gyfer y disgyblion ar ddiwedd y prosiect. Er mwyn sicrhau bod y daith tuag at ysgol newydd yn daith ddiarmhariad, werthfawr a chofiadwy i'r disgyblion, gwahoddir hwy i gymryd rhan mewn cynlluniau manteisiol i'r gymuned ac ymgynghorir arnynt ar wahanol gamau'r adeiladu.

- 6.3 Mae crynodeb Estyn yn cynnwys y datganiad a ganlyn.
“Barn Estyn yw y bydd y cynnig hwn yn debygol o leiaf o gynnal y safonau presennol o ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.”

Cynhwysir copi o lythyr Estyn yn **Atodiad 8**.

7. YMATEB Y CYNGOR I'R PRYDERON A GODWYD

7.1 Amlinellir isod ymateb y cyngor i bob un o'r pryderon a godwyd.

7.2 Pryderon iechyd a diogelwch

Diogelwch ar ddiwedd a dechrau'r diwrnod ysgol

Mae'r asesiad effaith trafndiaeth a arweinir gan Atkins yn datgan: “Mae dyluniad yr ysgol arfaethedig yn cynnwys maes parcio oddi ar y safle i gynnwys teithiau gollwng a chodi rhieni/gwarcheidwaid fel na fydd yn angenrheidiol i'r rhain barcio ar y ffyrdd o amgylch safle'r ysgol. Bydd y maes parcio'n cynnwys cyswllt llwybr troed uniongyrchol â'r ysgol a bydd yn cynnwys taith gerdded fer iawn (oddeutu 70m). Darperir cilfach barcio yn cynnwys 6 cilfach barcio hefyd yn uniongyrchol gyferbyn â'r ysgol oddi ar Ffordd Garreglwyd i ddarparu ar gyfer rhai gydag anawsterau symudoledd.” Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer trosglwyddo disgyblion yn ddiogel i ac o'r ysgol yn y bore a'r prynhawn.

Yn Ysgol Llywelyn, y Rhyl sy'n ysgol gynradd gyda 530 o ddisgyblion, mae'r trefniadau fel a ganlyn:

Yn y bore, daw rhieni â'u plant at un o ddrysau mynediad yr ysgol lle bydd aelod o'r staff yn bresennol i'w derbyn i'r ysgol. Yn Ysgol Llywelyn yn y Rhyl, roedd mynedfa a oedd yn un ffordd gyda pharth gollwng un pwrpas ar gyfer rhieni. Ar ddiwedd y diwrnod ysgol, aeth athrawon a chymorthyddion athrawon â'r plant i wahanol giataiau o amgylch y safle i sicrhau bod y plant yng nghwmni oedolyn y maent yn ei adnabod. Mae'r trefniant hwn yn mynd gryn ffordd i dawelu pryderon a godir gan rieni.

Trafnidiaeth a diogelwch y ffordd [yn cynnwys llwybrau diogel i'r ysgol]

Ymgwymerwyd ag Asesiad Effaith Trafnidiaeth fanwl (TIA) gan contractwr annibynnol.

Cynhwysir copi o'r adroddiad yn **Atodiad 9**.

Nododd Asesiad Effaith Trafnidiaeth gychwynnol, a gynhaliwyd yn 2012, y “byddai angen nifer o welliannau, angen ymchwiliad pellach neu byddai'n ddymunol fel rhan o gynllun i uno'r ysgolion. O ran lleiafswm mae'r rhain yn cynnwys:

- Llenwi i mewn y bylchau mewn darpariaethau llwybr troed ar hyd Ffordd orllewinol Garreglwyd.
- Adolygu cyfleusterau croesi ar droed ar y gyffordd rhwng Ffordd Garreglwyd a Ffordd Ynys Lawd,
- Ystyriaeth i leoliad mynediad cerddwyr y dyfodol i ac o Ffordd Ynys Lawd er mwyn sicrhau y byddai'r groesffordd sebra sydd ohoni yn cael ei defnyddio (neu yr ychwanegir ati os bydd yn angenrheidiol),
- Adolygu cyfleusterau croesi i gerddwyr yng nghyffordd ddwyreiniol Ffordd Ynys Lawd (mae modd y bydd angen cyfyngiadau parcio i gyd-fynd â hyn),
- Darparu cyfleusterau digonol ar gyfer cerbydau a ddefnyddir i ollwng / codi disgyblion,
- Parcio staff ac ymwelwyr digonol ar y safle,
- Ystyriaeth o'r cynllun ym mhwynt mynediad cerbydau wrth yr ysgol oddi ar Ffordd

- Garreglwyd oherwydd lled y ffordd a pharcio gyferbyn,
- Gwella gwelededd sydd ar gael yn yr allanfa o fynediad cerbydau'r ysgol,
- Ystyriaeth o ffyrdd o wella'r cyfleusterau presennol i gerddwyr a chyfyngu'r defnydd cerbydau cynyddol ar hyd Mill Bank a ffyrdd i'r dwyrain."

Roedd prif gwmpas yr Asesiad Trafnidiaeth fanwl yn cynnwys yr hyn a ganlyn.

- Adolygu mynediad i'r safle gan bob ffurf o deithio ac os bydd yn angenrheidiol gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau oddi ar y safle y gellir eu cyflwyno o fewn tir priffordd sydd ar gael.
- Adolygu'r cynigion ar gyfer mynediad a pharcio ar y safle a gwneud sylwadau arnynt.
- Adnabod lle gellid darparu pwynt gollwng/casglu bysys addas i wasanaethu'r safle ar sail achlysurol.
- Adolygu addasrwydd cyfleusterau croesi cerddwyr rhwng y safle a meysydd chwaraeon presennol i'r de.
- Darparu mewnbwn tuag at sefydlu trefniadau parcio staff.

Mae'r adran a ganlyn yn ceisio crynhoi cynnwys yr adroddiad Asesu Effaith Trafnidiaeth yn **Atodiad 9**.

Mynediad ar Droed

Mae'r arolwg wedi cadarnhau bod y cyngor wedi gweithredu cynlluniau priodol i ddarparu llwybrau troed newydd yn y rhan fwyaf o feysydd pryder. Fodd bynnag, oherwydd diffyg man ffyrdd addas ceir bwlch bychan o hyd mewn darpariaeth yn Ffordd Plas i'r gorllewin o'r gyffordd gyda Rhesdai Plashyfyrd.

Mynediad gyda Beic

Mae'r adroddiad yn nodi nad oes ffyrdd beiciau un pwrpas oddi ar y briffordd yng nghyffiniau'r safle. Fodd bynnag, mae'r ffyrdd o amgylch y safle wedi eu tawelu i drafnidiaeth ac yn cludo dim ond maint cymedrol o drafnidiaeth. Fel y cyfryw gallai seiclo i'r ysgol ar gyfer plant hŷn fod yn ddichonol.

Gweithgaredd Trafnidiaeth

- Nid yw'r ffyrdd o amgylch y safle ysgol arfaethedig yn cludo ond meintiau cymedrol o drafnidiaeth. Yn ystod yr awr gymwys i ddechrau/diwedd y diwrnod ysgol, mae'r drafnidiaeth gyfunedig 2-ffordd yn llifo ar Ffordd Ynys Lawd yn nhueddau 200 o gerbydau ac mae oddeutu hanner y swm yn teithio ar hyd Ffordd Garreglwyd yn yr un oriau
- Roedd yr arolwg yn cofnodi gogwydd mewn llifoedd cyfeiriadol ar Ffordd Porth-Y-Felin, Ffordd New Park ac ar hyd Ffordd Garreglwyd. Byddai arolwg brysiog o'r data a'r trefniant ffyrdd lleol yn awgrymu y defnyddir Ffordd Garreglwyd, Mill Bank, Stryd y Pwmp a'r ffyrdd cysylltiol i'r de-ddwyrain fel ffordd gan yrwyr sy'n anelu tua'r de o ardaloedd y gogledd yn hytrach na theithio drwy system un ffordd canol y dref.
- Ni fu i'r ymweliad safle ar ddechrau'r diwrnod ysgol amlygu unrhyw faterion neu wrthdaro trafndiaeth sylweddol ar Ffordd Ynys Lawd ger Ysgol Uwchradd Caergybi y byddai angen mynd i'r afael â hwy yn rhan o'r cynigion ysgol newydd.
- Cofnododd yr arolygon dull teithio arsylwadol y defnydd uchaf o geir yn Ysgol Llaingoch. Dynododd 16% o ddisgyblion Ysgol y Parch Thomas Ellis eu bod yn teithio gyda char, 10% yn Ysgol Y Parc, ond 48% yn Ysgol Llaingoch.
- Gellir gweld bod Ysgol Llaingoch ac Ysgol y Parc yn tynnu disgyblion o ddalgylch eang a bod hefyd â mwyafrif y disgyblion eisoes yn byw yn yr ardal o amgylch y safle arfaethedig. Yn gyferbyniol, mae dosbarthiad y teuluoedd a'r plant sy'n mynychu Ysgol y Parch Thomas Ellis yn llawer mwy dwys i dde ddwyrain ardaloedd y tai o amgylch yr ysgol honno

- Dangoswyd bod mwyafswm (oddeutu 60%) y rhai sy'n mynychu Ysgol Llaingoch yn byw i'r dwyrain o'r safle arfaethedig ac felly byddai ganddynt daith fyrrach i'r ysgol newydd o'i chymharu â theithio i Ysgol Llaingoch. Gallai'r ffaith hon felly gynorthwyo i leihau lefel y defnydd o geir yr ymddengys a wneir ar hyn o bryd gan deuluoedd a phlant sy'n mynychu'r ysgol honno. Mae sefyllfa gyffelyb yn gymwys i lawer o'r teuluoedd gyda phlant sy'n mynychu Ysgol Y Parc gan fod oddeutu hanner mynychwyr yr ysgol honno yn byw yn yr ardaloedd i'r de a'r dwyrain o'r safle arfaethedig ac felly eto, i'r rhain, gallai taith fyrrach arwain at y safle arfaethedig mewn cymhariaeth â theithio i'w hysgol bresennol.
- Yn gyffredinol, mae cynnydd cymedrol mewn hyd taith yn ymddangos yn debygol ar gyfer oddeutu un rhan o dair (1/3) o deuluoedd gyda disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc. Yn gyferbyniol fodd bynnag ymddengys yn debygol y bydd oddeutu dwy ran o dair (2/3) o deuluoedd gyda phlant sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol y Parchedig Thomas Ellis yn profi hyd taith fwy wrth drosglwyddo i safle'r ysgol newydd.
- Yn gyffredinol fodd bynnag gellir dirnad y bydd mwyafrif y disgyblion sy'n debygol o fynychu'r ysgol arfaethedig yn byw o fewn pellter cerdded derbynol ac o ganlyniad nid oes unrhyw sail amlwg i ddod i gasgliad y byddai angen newid sylweddol mewn dull o deithio o ganlyniad i gynllun yr ysgol newydd, ac yn arbennig mewn perthynas â theuluoedd gyda phlant sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Llaingoch ac Ysgol Y Parc. Tra bydd cynnydd mewn pellter cerdded yn ofynnol i rai, ymddengys yn rhesymol dod i'r casgliad y dylai cerdded aros yn brif ddull teithio i'r safle arfaethedig.
- Mae cynllun yr ysgol arfaethedig yn cynnwys maes parcio oddi ar y safle i ddal man gollwng rhiant /gwarcheidwad a theithiau casglu fel na fydd yn angenrheidiol i'r rhain barcio ar y ffyrdd o amgylch safle'r ysgol. Bydd y maes parcio yn cynnwys cyswllt llwybr troed uniongyrchol i'r ysgol a bydd yn cynnwys dim ond taith gerdded fer iawn (oddeutu 70m). Darperir cilfach yn cynnwys 6 o gilfachau parcio yn uniongyrchol gyferbyn â'r ysgol oddi ar Ffordd Garreglwyd i ddarparu ar gyfer y rhai gydag anawsterau symudoledd.
- Argymhellir y dylid gosod y gwaharddiadau parcio newydd (llinellau melyn dwbl) ar Ffordd Ynys Lawd ym mhob ochr i'r gyffordd i Faes Cybi a Ffordd New Park, gan y caniateir parcio yma ar hyn o bryd ond nid yw'n ddymunol gan y gallai effeithio ar welededd ar gyfer gywrwr sy'n gadael y ffyrdd ochrau. Dylai symud mannau parcio a ganiateir ar hyn o bryd yn agos i'r ysgol hefyd annog y defnydd o'r cyfleusterau maes parcio a ddarperir.
- Nid yw'r cynigion cynllun yn cynnwys pwynt gollwng/codi bysiau ar y safle ac felly ar gyfer yr achlysuron pan fo angen bws (er enghraifft teithiau ysgol) defnyddid pwynt golwg/ codi addas ar y briffordd. Mae arolwg o'r ardal yn dynodi bod man addas posibl yn bodoli gerllaw ar ochr ogleddol Ffordd Ynys Lawd, yn union i'r gogledd orllewin o safle'r ysgol.

Yn ychwanegol at yr uchod, byddai darwahanu amserau gorffen yr ysgol gynradd newydd arfaethedig ac Ysgol Uwchradd Caergybi yn lliniaru'r cynnydd mewn trafndiaeth. Mae Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Caergybi wedi cytuno i'r newid hwn.

Mae angen cynnwys darn ar faterion traffig ar ddiwrnod gwlyb.

7.3 Argaeledd cludiant i ac o'r ysgol newydd.

Pe bai'r cynnig i fynd yn ei flaen, byddai mwyafrif y disgyblion yn byw o fewn 2 filltir i'r ysgol gynradd newydd arfaethedig ac ni fyddent felly'n gymwys ar gyfer cludiant di-dâl i'r ysgol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn sylweddoli y byddai'r ysgol arfaethedig yn golygu y byddai gan rai disgyblion, yn arbennig ddisgyblion o ardal Treseifon, ffordd bellach i'w cherdded nag eraill. Byddai'r Awdurdod yn agored i awgrymiadau yn y cyswllt hwn.

7.4 **Maint yr Ysgol Newydd**

Codwyd pryderon bod yr ysgol newydd yn “rhy fawr ac yn rhy amheronol”.

Trafodwyd effaith posibl fyddai'r ysgol gynradd newydd yn ei gael ar y gymuned yn yr Asesiad Effaith Cymunedol.

Mae Estyn wedi diffinio ysgolion cynradd mawr yn rhai gyda 301 o ddisgyblion a throsodd. Ceir ysgolion cynradd o'r maint arfaethedig yng Ngogledd Cymru ac mae'r pennaeth a'r staff yn dal i adnabod y disgyblion wrth eu henwau. Ymwelodd swyddogion o'r Adran Dysgu Gydol Oes ac aelodau etholedig yn ddiweddar ag ysgol gynradd yn y Rhyl gyda 530 o ddisgyblion. Un o'r technegau a ddefnyddir i ddod i adnabod y disgyblion yn well oedd i athrawon, yn cynnwys y Pennaeth, gymryd cofrestrau dosbarthiadau gwahanol yn ystod yr wythnos ac i ddisgyblion gyflwyno gwaith da i athrawon nad ydynt yn athrawon dosbarth iddynt. Mae'r dull hwn yn effeithiol i alluogi'r Pennaeth ac aelodau eraill o'r staff ddod i adnabod y disgyblion

7.5 **Datgysylltu Ysgol Llaingoch o'r uno ac adeiladu ysgol lai.**

Mynegodd y contractwyr annibynnol a gynhaliodd yr Asesiad Effaith Trafnidiaeth: “Tra bod materion hefyd sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar fynediad o orllewin a gogledd ddwyrain y safle arfaethedig, mae'r arolwg cychwynnol yn awgrymu y gellid mynd i'r afael â'r rhain neu eu lliniaru ac yn yr ystyr honno ymddengys y byddai adleoli Ysgol Llaingoch ac Ysgol y Parc i'r safle newydd yn ddichonol. Mae data a ddarparwyd hefyd yn dynodi bod disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol hon eisoes yn byw yn yr ardaloedd uniongyrchol o amgylch y safle arfaethedig, neu byddant yn mynd heibio iddi ar y ffordd i'w hysgol bresennol p'run bynnag. Ar gyfer cyfran helaeth o ddisgyblion pellach posibl felly, byddai'r trosglwyddo i'r safle newydd yn golygu ychydig neu ddim newid i'w patrymau teithio presennol a gallent mewn gwirionedd leihau hyd eu taith.” Mae Ysgol Llaingoch yn nes at safle arfaethedig yr ysgol gynradd newydd h.y. safle Cybi (llai na hanner milltir). Felly, ni fyddai'n briodol “datgysylltu” Ysgol Llaingoch o'r broses.

Y ffactor arall yma yw cyflwr Ysgol Llaingoch. Roedd y ddogfen ymgynghori ffurfiol yn datgan : “Mae Ysgol Llaingoch yn adeilad ffrâm goed ac mae pryder mawr mewn perthynas â'i dyfodol hirdymor oherwydd dirywiad posibl. Mae swyddogion eiddo wedi nodi bod y ffrâm wedi dirywio a bod cwestiynau sylweddol yn aros mewn perthynas â diogelwch yr ysgol dros y blynyddoedd i ddod”. Pe bai Ysgol Llaingoch wedi ei ‘datgysylltu’ o'r broses, byddai'r broblem ynghylch ei hyfywedd hirdymor yn parhau.

7.6 **Maint dosbarthiadau a staffio**

Ar gyfer y blynyddoedd Meithrin a Derbyn, y gymhareb athro : disgybl yw 1:8 sy'n golygu mewn dosbarth o 30, byddai athro a 3 neu 4 o gymorthyddion.

Ar gyfer blynyddoedd 1 a 2, y gymhareb athro : disgybl yw 1:15 sy'n golygu mewn dosbarth o 30, y byddai 1 athro ac 1 cymhorthydd o ran leiaf.

Yn ôl y gyfraith, ni all maint dosbarthiadau fod yn fwy na 30 ar gyfer Meithrin i flwyddyn 2 h.y. yn y Cyfnod Sylfaen. Ar gyfer blynyddoedd 3-6 neu Cyfnod Allweddol 2, ceir arweiniad cryf i beidio â mynd dros 30 mewn dosbarth. Mae hyn yn golygu y byddai'r Awdurdod yn sicrhau na fydd maint dosbarthiadau arfaethedig yn yr ysgol newydd dros 30. Yn wir, bydd dosbarthiadau wedi eu cynllunio i ddal 30 o ddisgyblion yr un.

Ar gyfer ysgol o 540 o ddisgyblion, bydd hyn yn golygu y bydd ganddi 2 ddosbarth ar gyfer y feithrin (gyda dau'n cael eu defnyddio dyweder yn y bore ac un yn y prynhawn). Byddai 6

dosbarth ar gyfer y flwyddyn Derbyn a blynyddoedd 1 a 2 o 56-60m². Yn ychwanegol byddai 10 dosbarth ar gyfer yr Adran Iau h.y. Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 18 o ddosbarthiadau.

Bydd yr ystafelloedd hyn wedi eu cyfarparu â'r offer 'diweddaraf' e.e. byrddau gwyn rhyngweithiol. Yn ychwanegol, bydd ardaloedd ar gyfer addysgu grwpiau bychain a lleoedd hyblyg amlbwrpas o fewn yr ysgol.

Mae'r posibilrwydd yn bodoli y byddai swydd Pennaeth ar gyfer yr ysgol newydd yn cael ei hysbysebu'n genedlaethol ac y byddai mwyafrif llethol y swyddi sydd ar ôl [dirprwyon ac athrawon] yn cael eu hamgylchynu i'r tair ysgol dan sylw. Yn hyn o beth, mae pob tebygolrwydd y byddai'r aelodau hynny o'r staff a fyddai eisiau parhau yn cael cynnig swydd yn yr ysgol newydd.

7.7 **Adeilad a safle** [addasrwydd ac yn rhy agos i'r ysgol uwchradd]

Mae swyddogion y Cyngor wedi ymchwilio i'r safleoedd sydd ar gael yng Nghaergybi ac yn y dechrau meddylwyd am 8 safle a oedd yn cynnwys safleoedd y 3 ysgol gynradd o dan ystyriaeth. Trafodwyd y safleoedd posibl [ac yn benodol safleoedd Millbank, y parc Ysgol Cybi] yn fanwl gyda'r aelodau etholedig perthnasol. Arweiniodd y drafodaeth hon at gadarnhau safle Ysgol Cybi fel yr opsiwn dewisol. Gellir gweld manylion y gwerthusiad opsiynau perthnasol yn [Atodiad 10](#).

Mae pob ysgol gynradd newydd wedi eu cynllunio i'r safonau a osodwyd ym Mwletin Adeiladu 99 Llywodraeth y D.U.: Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd. Mae'r ddogfen ymrwymol hon yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddylunio ysgolion cynradd yn cynnwys manau chwarae yn ôl nifer y disgyblion yn yr ysgol. Amlinellir isod rai o'r manylion perthynol:

- Cyfanswm arwynebedd safle Cybi yw 14,650m² ac mae hyn yn cyfarfod â'r raddfa ofynnol y m² ar gyfer pob plentyn o dan Fwletin Adeiladu 99.
- Mae 1525m² (2.5m² y plentyn) o le Chwarae Meddal allanol yn ofynnol ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Mae cynlluniau dyluniadau safle presennol yn dynodi manau gwyrdd allanol yn 1,430m² ynghyd ag arwynebedd Chwarae Meddal Rwber o 300m² h.y. cyfanswm o 1,730m².
- Mae 915m² (1.5m² y plentyn) o ardal Chwarae Caled allanol yn ofynnol ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Mae cynlluniau dyluniadau safle presennol yn dynodi manau chwarae caled allanol yn 3,300m².
- Mae 1220m² (2.0m² y plentyn) o ardal Cwrt Gemau allanol yn ofynnol ar gyfer ysgol o'r maint hwn. Mae cynlluniau dyluniadau safle presennol yn dynodi 2 fan cwrt gemau allanol yn gyfanswm o 1,600m².
- Ceir gofyn hefyd am ardal Gynefin o 305m² (0.5m² y plentyn) – mae cynlluniau dyluniadau safle presennol yn dynodi ardal Gynefin o 350m².

Yn ychwanegol, bydd pob maes chwaraeon ar gampws Millbank ar gael i ysgol newydd.

Yn nhermau parcio, dynodir 30 o leoedd staff/ymwelwyr ar safle'r ysgol a dynodir 50 o leoedd staff / rhieni ar safle maes parcio newydd Millbank. Gan fod y prosiect arfaethedig hwn i'w gynllunio a'i adeiladu gan gontractwyr allanol, gallai hyn newid yn ystod y cam dylunio wrth ymgynghori â'r gwahanol randdeiliaid. Mae hynny'n gyffelyb i ysgol gynradd ar gyfer 530 o ddisgyblion yn y Rhyl, sydd â maes parcio staff o 50 o leoedd.

Yn nhermau dwysedd poblogaeth h.y. faint o le a fydd gan bob disgybl y tu allan i'r adeilad mae

cyfrifiadau'n dangos y bydd gan ddisgyblion gyfanswm o ychydig dros 20m² o le chwarae. Y ffigwr gyfatebol ar gyfer Ysgol Llywelyn yw 48m².

Pe bai'r cynnig i fynd ymlaen, byddai adeilad Cybi yn cael ei adfer yn sympathetig i safonau'r rheoliadau adeiladu diweddaraf a fyddai'n ei wneud yn addas iawn i'w ddefnyddio fel adeilad ysgol. Mae rheoliadau adeiladu yn gosod safonau ar gyfer dylunio ac adeiladu sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o adeiladau newydd ac i lawer o newidiadau i adeiladau sydd ohoni. Maent yn sicrhau iechyd a diogelwch pobl yn a gerllaw adeiladau ac yn cwmpasu:

- arbed ynni
- mynediad
- y defnydd o adeiladau.

Gyda golwg ar ei lleoliad arfaethedig, bydd yr ysgol gynradd newydd gyferbyn ag Ysgol Uwchradd Caergybi yn cynnig y posibilrwydd o rannu adnoddau er enghraifft:

- Rhannu adnoddau ffisegol – cyfleusterau chwaraeon ym Millbank
- Addysgu arbenigol e.e. athrawon cynradd yn cyflwyno gweithfaredau iaith-berthynol ym mlynnyddoedd 7 ac 8, athrawon uwchradd yn cyflwyno gwersi ieithoedd modern tramor ac A.G. ym mlynnyddoedd 5 a 6.

Pob ysgol yn dilyn polisiau'r Awdurdod mewn perthynas â Bwlio a disgwyld i'r staff yn yr ysgol newydd arfaethedig wneud yr un peth. Mae gweithdrefnau llym yn awr yn eu lle i ddelio ag unrhyw faterion o fwlio a gweithredir y polisiau a'r gweithdrefnau hyn yn yr ysgol newydd.

Mae arweiniad diweddar (Mehffin 2014) gan Estyn yn datgan y dylai ysgolion

- godi ymwybyddiaeth o fwlio ar dir nodweddion a amddiffynnir gyda disgyblion, rhieni, staff, a llywodraethwyr ac yn dilyn dull mwy rhagweithiol o atal a lliniaru ei effeithiau
- ymgynghori â disgyblion, rhieni, ac eraill, i adnabod graddau a natur bwlio yn yr ysgol a chytuno ar gynnwys cynlluniau cydraddoldeb strategol;
- cynllunio cyfleoedd oed-briodol yn y cwricwlwm i drafod materion perthynol i nodweddion a amddiffynnir ac adeiladu gwytnwch disgyblion i fwlio;
- sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth glir o raddau a natur bwlio a all ddigwydd mewn ysgol, yn cynnwys seibrfwlio,
- gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod sut i ddelio gyda digwyddiadau o fwlio a'u cofnodi;
- cofnodi a monitro digwyddiadau o fwlio mewn perthynas â nodweddion amddiffynedig a'r defnydd o wybodaeth i adolygu nodau cydraddoldeb strategol; a
- sicrhau bod pob polisi a gweithdrefn yn cyfarfod â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gweithredir y mesurau hyn yn yr ysgolion ar Ynys Môn. Maent yn cael eu harfer hefyd mewn ysgolion 3-19 yng Ngheredigion.

Byddai darwahanu amserau gorffen yr ysgol gynradd newydd arfaethedig ac Ysgol Uwchradd Caergybi yn lleihau'n fawr y siawns i ddisgyblion ysgol gynradd ac ysgol uwchradd ddod i gysylltiad â'i gilydd.

7.8 Arian a gwario'r cyllid ar dair ysgol ar wahân

Fforddiadwyedd ysgol newydd

Amcangyfrifwyd y byddai cyfanswm cost datblygu safle Cybi site yn y lle cyntaf yn £13,600,000. Rhagamcenir yn awr y bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn costio llai na £10 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi ei chefnogaeth i gyfarfod 50% o'r gost arfaethedig.

Buddsoddi'r arian yn yr ysgolion presennol

Mae arian ar gyfer prosiectau ysgol newydd drwy Raglen Ysgolion y 21^{ain} Ganrif ar sail 50:50 gyda hanner yr un yn dod o Lywodraeth Cymru ac o'r Awdurdod Lleol. Amod yr arian Llywodraeth Cymru hwn yw bod yn rhaid ei wario ar foderneiddio'r ystâd ysgolion a bod hynny wedyn yn arwain at leihau nifer lleoedd dros ben mewn ysgolion.

Cyfanswm yr ôl-groniad cynnal a chadw ar gyfer y tair ysgol yw £508,150. Costau cynnal a chadw yw'r rhain ac ni fyddent yn dod â'r tair ysgol i fyny at safon Ysgol yr 21^{ain} Ganrif lle byddai ysgol gynradd newydd o'r safon honno.

